Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
09/2022
DYDDIAD CYHOEDDI:
08/02/2022

# Gwerthusiad o Raglen Cymru'n Cofio 2013-2020

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80391-509-8

Teitl: Gwerthusiad o Raglen Cymru'n Cofio 1914-1918

Awdur(on): Coates, J, Campbell, L, a Heywood Heath, C.

Adroddiad Ymchwil Llawn: Coates, J, Campbell, L, a Heyward Heath, C. (2021). Gwerthusiad o Raglen Cymru'n Cofio 2013-2020
Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 9/2022
Ar gael yn: https://llyw.cymru/gwerthusiad-o-raglen-cymrun-cofio-2013-i-2020

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Enw: Dr Jo Coates
Is-adran: Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Rhif Ffôn: 0300 025 5540
E-bost: RhYF.IRP@llyw.cymru

## Tabl Cynnwys


Rhestr o ffigurau ..... 2

Geirfa ..... 3

1. Cyflwyniad ..... 4
2. Methodoleg ..... 8
3. Damcaniaeth Newid ac Adolygiad o Ddogfennau ..... 14
4. Arolwg gyda Phrosiectau Cymunedol ..... 26
5. Cyfweliadau gyda Bwrdd y Rhaglen ..... 34
6. Casgliadau ac Argymhellion ..... 49

Adran gyfeiriadau ..... 55

Atodiad A ..... 56

**Rhestr o ffigurau**

Ffigur 3.1: Model Rhesymeg Damcaniaeth Newid Cymru’n Cofio 1914-1918 ..................... 15
Ffigur 4.1: A wnaethoch chi ofyn am gymorth gan Cymru’n Cofio i helpu i gyflwyno eich prosiect / digwyddiad? ..................... 26
Ffigur 4.2: Pa fath o gymorth a gawsoch? ..................... 27
Ffigur 4.3: Oeddech chi’n ymwybodol bod yna frandio penodol ar gyfer Cymru’n Cofio? .... 28
Ffigur 4.4: Oeddech chi’n ymwybodol mai Llywodraeth Cymru oedd yn darparu brandio i’w ddefnyddio gan brosiectau Cymru’n Cofio? ..................... 28
Ffigur 4.5: A wnaethoch chi ddefnyddio’r brandio ar unrhyw ddeunydd a gyhoeddwyd fel rhan o’ch prosiect / digwyddiad? ..................... 29
Do Naddo ..................... **Error! Bookmark not defined.**
Ffigur 4.6: Ble wnaethoch chi ddefnyddio’r brandio? ..................... 29
Ffigur 4.7: A oeddech chi’n ymwybodol bod bwrdd rhaglen yn goruchwylio’r coffáu? .......... 30
Ffigur 4.8: A gawsoch chi unrhyw gysylltiad â bwrdd y rhaglen / aelodau bwrdd y rhaglen wrth gyflwyno eich prosiect / digwyddiad? ..................... 30
Ffigur 4.9: Sut y byddech chi’n disgrifio’r agweddau canlynol ar ymgysylltu â rhaglen Cymru’n Cofio? ..................... 31
Ffigur 4.10: A wnaethoch chi gasglu unrhyw ddata neu wybodaeth fonitro am gyfranogwyr a fynychodd eich prosiect / digwyddiad? ..................... 32
Ffigur 4.11: Pa ddata wnaethoch chi ei gasglu? ..................... 32

**Geirfa**

| Acronym/Gair allweddol | Diffiniad |
| --- | --- |
| DCMS | Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon |
| GDPR | Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data |
| IRP | Rhaglen Ymchwil Fewnol |
| LlGC | Llyfrgell Genedlaethol Cymru |
| Y DU | Y Deyrnas Unedig |
| LlC | Llywodraeth Cymru |

# 1. Cyflwyniad

1.1 Comisiynwyd y Rhaglen Ymchwil Fewnol (Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, Llywodraeth Cymru) gan yr Is-adran Diwylliant a Chwaraeon, Llywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad o'r gwaith o gyflwyno rhaglen *Cymru'n Cofio 1914-1918*[1], rhaglen goffáu cyfraniad Cymru at y Rhyfel Byd Cyntaf.

1.2 Cymru'n Cofio oedd cyfraniad Llywodraeth Cymru at raglen ehangach y DU o nodi canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf, ac roedd yn canolbwyntio'n benodol ar gyfraniad pobl Cymru ar faes y gad ac yn ôl yng Nghymru. Amcanion y rhaglen oedd:

- adnabod a nodi pen-blwyddi dyddiadau pwysig, gan weithio gyda sefydliadau a gwasanaethau yng Nghymru, gwledydd eraill y DU a phartneriaid rhyngwladol;
- cefnogi rhaglen addysgol sy'n annog ysgolion a mudiadau pobl ifanc i gymryd rhan yn llawn mewn digwyddiadau coffáu;
- datblygu a chefnogi partneriaethau cynhyrchiol i ddarparu gweithgareddau a digwyddiadau gydol y cyfnod coffáu ar gyfer cynulleidfaoedd amrywiol;
- cefnogi digwyddiadau a gweithgareddau dehongli bywiog gan ein cyrff diwylliannol a'n cyrff treftadaeth, sy'n ystyried diwylliant a hanes ac sy'n adlewyrchu safbwyntiau gwahanol ar y cyfnod;
- gweithio gyda Chronfa Dreftadaeth y Loteri a chyllidwyr eraill i gefnogi prosiectau cymunedol sy'n adrodd hanes Cymru a'r Rhyfel Byd Cyntaf
- sicrhau bod gwybodaeth am y coffáu yng Nghymru ar gael yn hawdd i bawb yng Nghymru a thu hwnt, a;
- sicrhau bod y coffáu yn gadael gwaddol digidol cyfoethog ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

1.3 Cynhaliwyd y rhaglen rhwng 2012 a 2020 ac roedd yn cynnwys gweithgareddau, rhaglenni a digwyddiadau amrywiol wedi'u hariannu a oedd yn canolbwyntio ar Gymru yn bennaf, gan weithio gyda nifer o bartneriaid allanol. Cydgysylltwyd y digwyddiadau hyn gan fwrdd cynrychiolwyr o sefydliadau amrywiol ledled y DU, ac roedd Llywodraeth Cymru yn arwain detholiad o ddigwyddiadau wedi'u targedu.

[1] Cyfeirir at y rhaglen fel Cymru'n Cofio o hyn ymlaen.

Cafodd y rhaglen ei chynllunio a'i chydgysylltu gan dîm o swyddogion Llywodraeth Cymru, a oedd hefyd yn gyfrifol am greu, cydgysylltu a threfnu bwrdd y rhaglen. Hefyd, roedd y rhaglen yn gweithio mewn partneriaeth i raddau amrywiol â'r Grŵp Hyrwyddwyr Mewnol, grŵp o swyddogion Llywodraeth Cymru a oedd yn arwain eu meysydd polisi. Roeddent yn rhoi persbectif traws-lywodraethol ar y rhaglen i sicrhau cydlyniant rhwng Cymru'n Cofio a gweithgarwch ym mhob maes polisi.

1.4 Yn ogystal, rhwng 2014 a 2018, cefnogwyd agwedd Addysg y rhaglen hon gan ddyraniad o £850,000, ac roedd yn cynnwys tair elfen, sef;

- Adnoddau addysgol digidol dwyieithog pwrpasol ar gyfer Ysgolion Cymru, wedi'u cynhyrchu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru (LlGC);
- Ap 'Cymru yn y Rhyfel', sef ap dwyieithog, rhyngweithiol i Gymru sy'n galluogi ysgolion ac aelodau'r cyhoedd i 'gael mynediad' at theatrau rhyfel o'u hystafelloedd dosbarth yng Nghymru;
- Cynllun grantiau bach (hyd at £1,000 fesul ysgol) sydd ar gael i bob ysgol uwchradd yng Nghymru i'w galluogi i ddatblygu eu gweithgareddau coffáu eu hunain o'r Rhyfel Byd Cyntaf, sef cyfanswm o £279,000 dros bedair blynedd.

1.5 Darparwyd cyllid ychwanegol i wella elfen 'Ewch i Weld' Addysg sy'n Gyfoethog o Gelfyddydau, a weinyddir drwy Gyngor Celfyddydau Cymru, ar gyfer cyfnod 2018-19, a gwnaed cyfanswm o 72 o ddyfarniadau ariannu i ysgolion drwy'r llwybr hwn yn ystod 2018-19.

1.6 Dechreuodd y gwaith o gynllunio a pharatoi ar gyfer y rhaglen yn 2012 ac felly mae'n rhagflaenu'r llywodraeth bresennol a'r nodau a'r amcanion a nodwyd yn *Ffyniant i Bawb: y Strategaeth i Gymru,* rhaglen lywodraethu Cymru 2016-2021. Fodd bynnag, mae amcanion y rhaglen yn berthnasol i'r amcanion cyffredinol 'datblygu cymunedau, diwylliant ac iaith gydnerth' drwy ymrwymiad y rhaglen i amlygu cyfraniadau penodol Cymru at y rhyfel a rhoi sylw penodol i brofiadau amrywiol y rhai a oedd yn byw drwy'r rhyfel. Hefyd, mae'r rhaglen yn cwmpasu'n fras y nod o 'hyrwyddo a diogelu lle Cymru yn y byd' drwy ei chyfraniad at drefnu digwyddiadau tramor i goffáu milwyr o Gymru mewn brwydrau neu ddigwyddiadau allweddol. Amlygodd y digwyddiadau hyn gyfraniadau pobl Cymru gan hefyd

gynyddu gwelededd brand a natur unigryw Cymru o'u cymharu â gweithgareddau coffa eraill a gynhaliwyd ar lefel y DU.

1.7 Nod y gwerthusiad hwn yw asesu mewn ffordd ôl-weithredol y dulliau o gyflwyno'r rhaglen er mwyn darparu argymhellion ar gyfer cyflwyno rhaglenni coffáu yn effeithiol yn y dyfodol a deall sut y gellid mesur effaith y gweithgarwch a ariannwyd fel rhan o'r rhaglen. Gan fod y Rhaglen Ymchwil Fewnol yn rhan o'r prosiect ar ddiwedd y prosiect, nid oedd modd mesur effeithiau'n effeithiol oherwydd diffyg seilwaith monitro data, ac felly mae'r gwerthusiad hwn yn canolbwyntio'n unig ar fyfyrdodau gan fwrdd y rhaglen a phrosiectau a ariannwyd am eu profiad o weithio fel rhan o'r rhaglen.

1.8 Dyma amcanion y gwerthusiad;

- Cynnal gweithdy Damcaniaeth Newid gyda swyddogion allweddol yn yr Is-adran Diwylliant a Chwaraeon a swyddogion Llywodraeth Cymru eraill (Addysg, Cyfathrebu a Cadw) i fapio'r rhaglen yn ôl-weithredol mewn model rhesymeg;
- Cynnal cyfres o gyfweliadau ansoddol gydag aelodau Bwrdd Rhaglen Cymru'n Cofio gan drafod agweddau ar gydgysylltu a chyflwyno'r rhaglen, swyddogaeth y strategaeth gyfathrebu, ac archwilio argaeledd data a phosibiliadau ar gyfer asesu effaith rhaglenni yn y dyfodol;
- Cynnal adolygiad o'r data sydd ar gael ar y rhaglen a'r gweithgarwch y mae wedi'i ariannu (gan gynnwys y Cynllun Grantiau Ysgolion Uwchradd a Chynllun Cadw) a gwneud argymhellion ar gyfer prosesau monitro a gwerthuso rhaglenni coffa yn y dyfodol.
- Gweinyddu arolwg byr yn gofyn am safbwyntiau rhanddeiliaid ar eu profiad o gyflwyno eu prosiect a natur ac ansawdd y cyswllt â bwrdd y rhaglen a'r modd y cyflwynwyd y rhaglen ganddynt.

1.9 Bydd adran dau yn amlinellu methodoleg y gwerthusiad, gydag adran tri yn amlinellu'r ddamcaniaeth newid, a luniwyd yn ôl-weithredol ar ddiwedd y prosiect yn gynnar yn 2020. Bydd adran pedwar yn manylu ar ganfyddiadau'r arolwg o brosiectau a ariannwyd, a bydd adran pump yn cyflwyno canfyddiadau'r cyfweliadau

ansoddol ag aelodau bwrdd y rhaglen. Yn olaf, bydd adran chwech yn dwyn ynghyd brif ganfyddiadau’r gwerthusiad ac yn gwneud rhai argymhellion ar ddull gwerthuso rhaglenni coffa yn y dyfodol.

## 2. Methodoleg

2.1 Cafodd y Rhaglen Ymchwil Fewnol ei chomisiynu i gynnal gwerthusiad o Cymru'n Cofio pan ddaeth gweithgarwch y rhaglen i ben yn hydref 2019. Felly mae gan y gwerthusiad nifer o gyfyngiadau sy'n cael eu hamlinellu yma er mwyn darparu darlun cywir o fanteision casglu data a'r canfyddiadau a amlinellir yn yr adroddiad hwn. Cyfyngwyd ar gwmpas y gwerthusiad oherwydd ei natur ôl-weithredol. Nid oedd modd cwblhau gwerthusiad effaith o'r rhaglen oherwydd diffyg dull gwerthuso a monitro data y cytunwyd arno o'r cychwyn cyntaf, gan gynnwys damcaniaeth newid y cytunwyd arni. Felly, roedd y gwerthusiad yn canolbwyntio ar asesu'r hyn y gellid ei ddysgu o'r broses o gyflwyno'r rhaglen, neu werthusiad o'r broses. Mae gwerthusiadau o brosesau yn canolbwyntio ar yr hyn a weithiodd yn dda a'r hyn na weithiodd yn dda mewn ymyriad, beth y gellid ei wella, a sut mae'r cyd-destun wedi dylanwadu ar gyflawni (The Magenta Book, 2020: 15). Felly, bydd y dulliau'n canolbwyntio ar ganfyddiadau buddiolwyr o'r rhaglen ynghyd â chanfyddiadau'r rhai a oedd yn ymwneud â'r gwaith o'i chyflwyno.

2.2 Gweithdy damcaniaeth newid ôl-weithredol oedd man cychwyn y gwaith. Ei nod oedd cael gwybodaeth gan staff Llywodraeth Cymru am resymeg arfaethedig yr ymyrraeth ac adolygu'r data a oedd ar gael a gwaith cynllunio'r gwerthusiad. Roedd y broses o gasglu data sylfaenol yn cynnwys arolwg o brosiectau a ariannwyd er mwyn deall eu profiad o weithio gyda bwrdd y rhaglen i gyflwyno eu prosiectau, ac yn olaf cynhaliwyd cyfres o 10 cyfweliad ansoddol gydag aelodau o fwrdd y rhaglen i ofyn am eu safbwyntiau ar gynnal y rhaglen, a'r ffactorau galluogi a heriol a wynebodd aelodau'r bwrdd. Oherwydd cyfyngiadau amser, penderfynwyd na fyddai'r gwerthusiad yn cynnwys adolygiad o'r cyllid ar gyfer ysgolion a phrosiectau cymunedol, ond y byddai'n canolbwyntio'n gyfan gwbl ar y gwaith o gydgysylltu gweithgarwch y rhaglen yn ganolog a phrofiadau prosiectau cymunedol a ddenodd symiau mwy sylweddol o gyllid.

2.3 Cyfnod o naw mis rhwng mis Hydref 2019 a mis Mehefin 2020 oedd amserlen wreiddiol y gwerthusiad; byddai'r canfyddiadau yn rhan o adolygiad cyffredinol y rhaglen gan gydweithwyr Llywodraeth Cymru yn yr Is-adran Diwylliant a Chwaraeon. Gohiriwyd y gwerthusiad yn ystod y broses o gasglu data ym mis Ebrill

2020 gan fod adnoddau'r Is-adran Diwylliant a Chwaraeon yn cael eu dargyfeirio i gynorthwyo yn sgil Covid-19. Ailddechreuodd y gwerthusiad ym mis Hydref y flwyddyn honno. Felly, cwblhawyd y gweithdy damcaniaeth newid yn gyntaf, a chwblhawyd yr arolwg, y cyfweliadau a'r gwaith dadansoddi dogfennau ar ôl ailddechrau'r prosiect.

**Gweithdy Damcaniaeth Newid**

2.4 Oherwydd natur ôl-weithredol y gwerthusiad, roedd yn fuddiol i gydweithwyr ymchwil ymgymryd â gwaith cwmpasu gweithgarwch y rhaglen a'r canlyniadau arfaethedig. Fel rhan o hyn, cynhaliodd yr ymchwilwyr weithdy Damcaniaeth Newid. Mae gweithdy damcaniaeth newid yn adnodd gwerthuso a ddefnyddir i fapio sut mae mewnbynnau a gweithgareddau prosiect yn arwain at y canlyniadau tymor byr, tymor canolig a hirdymor bwriadedig. Mae hyn yn darparu map ffordd i ddeall sut y bydd ymyriad, sef y rhaglen yn yr achos hwn, yn cyflawni'r amcanion a bennwyd ac yn dangos effaith.

2.5 Fel arfer, cynhelir gweithdai Damcaniaeth Newid ar ddechrau ymyriad, weithiau fel rhan o asesiad o'r gallu i werthuso, er mwyn nodi rhesymeg yr ymyriad a helpu i nodi unrhyw risgiau i'w gyflwyno. Hefyd, maen nhw'n gallu helpu i nodi data sydd ei angen i fesur effaith ymyriad. Gellir adolygu'r modelau rhesymeg a gynhyrchir hanner ffordd drwy ymyriad ac ar ddiwedd ymyriad fel adolygiad o sut y cyflwynwyd y rhaglen ac i ba raddau y cyflawnwyd yr effeithiau bwriadedig. Gellir diwygio'r modelau rhesymeg wrth i fersiynau newydd o'r ymyriad gael eu cynllunio yn y dyfodol gan ddarparu fframwaith gwerthuso o'r cychwyn cyntaf. Fodd bynnag, mae manteision i gynnal gweithdy ar gyfer ôl-werthusiad blaenorol, gan ei fod yn galluogi'r rhai sy'n gwneud y gwaith gwerthuso i gwmpasu'r rhaglen yn fanwl a chael gwell dealltwriaeth o sail resymegol cynllun y rhaglen. Hefyd, gall y broses o gynnal gwerthusiad ôl-weithredol helpu'r tîm cyflawni i fyfyrio ar y profiad a darparu gwybodaeth am y bwriad cychwynnol a'r hyn a gyflawnwyd mewn gwirionedd, a'r rhesymau am hyn.

2.6 Cynhaliwyd y gweithdy 1.5 awr o hyd ym mis Rhagfyr 2019 o dan ofal ymchwilwyr o'r Rhaglen Ymchwil Fewnol a thîm ymchwil Dyfodol Cynaliadwy. Roedd dau aelod o staff y rhaglen ac un swyddog yn gyfrifol am y strategaeth gyfathrebu. Roedd natur y sesiwn yn rhyngweithiol, ac arweiniodd at gynhyrchu model rhesymeg a

chynrychiolaeth weledol o'r ddamcaniaeth newid at ddefnydd y tîm gwerthuso. Man cychwyn y sesiwn oedd mapio canlyniadau bwriadedig mwy hirdymor y rhaglen. Wedyn, symudodd y drafodaeth ymlaen i ddeall y cyd-destun ar ddechrau'r prosiect a'r sail resymegol dros y rhaglen, gan gynnwys ystyried rhagdybiaethau a risgiau allweddol i gyflawni amcanion y rhaglen. Aeth y gweithdy ymlaen wedyn i fapio adnoddau a gweithgareddau allweddol y rhaglen, gan arwain at fodel rhesymeg a oedd yn mapio nifer o gadwyni ymyrraeth a oedd yn sylfaen i'r rhaglen yn ei chyfanrwydd. Mae'r model rhesymeg i'w weld yn adran tri o'r adroddiad hwn.

**Adolygiad o Ddogfennau ac Argaeledd Data**

2.7 Er mwyn i ymchwilwyr y Rhaglen Ymchwil Fewnol ddeall cefndir a chynllun y rhaglen yn fanylach, cynhaliwyd adolygiad o ddogfennau yn system ffeilio'r Is-adran Diwylliant a Chwaraeon. Roedd y mathau canlynol o ddogfennau o ddiddordeb at ddibenion y gwerthusiad hwn:

- Dogfennau cyd-destunol yn manylu ar y broses o sefydlu'r rhaglen;
- Dogfennau yn manylu ar amcanion a gweithgarwch prosiectau a ariannwyd gan Cymru'n Cofio, gan gynnwys unrhyw gynlluniau monitro a gwerthuso ac unrhyw wybodaeth am brosiectau yn manylu ar ganlyniadau ac effeithiau gweithgarwch prosiectau;
- Gwybodaeth am nodau ac amcanion cynllun grantiau cofebau rhyfel Cadw a'r grantiau addysgol ar gyfer ysgolion uwchradd i ymgymryd â gweithgarwch coffáu. Er nad oedd cwmpas y gwerthusiad hwn yn cynnwys mesur effaith y prosiectau, roedd yn ddefnyddiol deall sail resymegol a'r defnydd o gyllid grant ar gyfer yr elfennau hyn o'r rhaglen er mwyn nodi'r ffordd orau o'u gwerthuso yn y dyfodol.

2.8 Roedd y cwestiynau canlynol yn sylfaen i'r dadansoddiad o'r ddogfen ac roeddent o ddiddordeb i'r gwerthusiad hwn:

1. Pa ddogfennau sy'n manylu ar ddulliau monitro a gwerthuso pob prosiect ac a ydynt ar gael ar gyfer pob prosiect?
2. Pa ddogfennau sy'n manylu ar y data a gasglwyd drwy gydol y prosiect a sut y defnyddiwyd y data?

3. Sut mae'r dulliau monitro a gwerthuso yn cyd-fynd â'r data a gasglwyd ac a yw'r dull hwn yn ei gwneud yn bosibl canfod effeithiau prosiectau?

2.9 Ar ôl adolygu dogfennau cyd-destunol pwysig, gan gynnwys y Ddogfen Cychwyn Prosiect (2013), y map ffordd o ddigwyddiadau a gweithgareddau ar gyfer pob blwyddyn o'r rhaglen (2013-20), a Chyngor Gweinidogol perthnasol yn manylu ar gyllid ar gyfer y rhaglen, gan gynnwys y gwerthusiad, roedd ymchwilwyr mewn sefyllfa well i ddeall sut y sefydlwyd y rhaglen a swyddogaethau a chyfrifoldebau bwrdd y rhaglen.

2.10 Yna, adolygwyd y ffeiliau yn ymwneud â phob prosiect a ariannwyd er mwyn deall i ba raddau roedd gwaith monitro a gwerthuso pob prosiect wedi'i gwblhau drwy gydol y prosiect, ac er mwyn canfod sut y cafodd tîm y rhaglen yn Llywodraeth Cymru ei hysbysu am hyn. Roedd deall sut y cafodd effeithiau prosiectau eu defnyddio a'u hadrodd o ddiddordeb hefyd. Cwblhawyd y broses hon hefyd ar gyfer grantiau cofebau rhyfel Cadw a'r grantiau addysgol. Ceir crynodeb o fath ac ansawdd y data monitro yn adran 3 o'r adroddiad hwn.

**Arolwg o Brosiectau Cymunedol**

2.11 Ar ôl creu'r model rhesymeg, roedd ymchwilwyr yn gallu llunio arolwg ar gyfer y rhai a oedd wedi derbyn cyllid a chymorth gan y rhaglen i ddarparu prosiectau cymunedol. Roedd yr arolwg yn cynnwys y pynciau canlynol:

- Ymwybyddiaeth o gyswllt ac ansawdd y cyswllt rhwng y prosiect a'r rhaglen wrth roi'r mentrau ar waith;
- Ymwybyddiaeth a defnydd o frandio Cymru'n Cofio gan y prosiectau;
- Mabwysiadu deunyddiau Cymru'n Cofio gan brosiectau ac ym mha ffordd roeddent yn ddefnyddiol;
- Adnoddau a ddefnyddiwyd gan brosiectau wrth gyflwyno mentrau a sut y cofnodwyd canlyniadau prosiectau;

2.12 Lluniwyd yr arolwg ar y cyd â thîm Cymru'n Cofio yn Llywodraeth Cymru. Mae copi o gwestiynau'r arolwg ar gael yn Atodiad A. Ym mis Mawrth 2020 cyflwynwyd yr arolwg ar ffurf copi caled yn y Digwyddiad Ymgysylltu â Phartneriaeth yn Adeilad y Pierhead ym Mae Caerdydd. Daeth y digwyddiad hwn â rhanddeiliaid amrywiol

ynghyd, ac roedd yn cynnwys cyflwyniadau gan brosiectau cymunedol a myfyrdodau ar lwyddiannau a heriau'r rhaglen yn ei chyfanrwydd. Cyflwynodd pum ymatebydd ffurflen arolwg yn y digwyddiad hwn.

2.13 Hefyd, y bwriad oedd cyflwyno'r arolwg mewn tri digwyddiad sioe deithiol arall ar gyfer y rhaglen, a oedd i fod i gael eu cynnal ym mis Mawrth a mis Ebrill 2020. Derbyniwyd chwe ymateb arall yn un o'r digwyddiadau hyn, a chanslwyd y ddau arall yn dilyn y cyhoeddiad am y cyfyngiadau symud cenedlaethol yn sgil Covid-19. Yn ystod y cyfnod hwn, gohiriwyd y broses o gasglu data ar gyfer y prosiect gan fod adnoddau Llywodraeth Cymru wedi'u dargyfeirio i fynd i'r afael â'r pandemig. Er mwyn sicrhau bod gan bob prosiect gyfle digonol i gymryd rhan, gweinyddwyd yr arolwg ar-lein trwy ddefnyddio SmartSurvey, platfform arolwg wedi'i gymeradwyo gan GDPR y DU, ar ôl i'r gwaith maes ailddechrau ar y prosiect yn ddiweddarach yn 2020. Anfonwyd gwahoddiadau at y prif unigolion cyswllt ar gyfer pob prosiect cymunedol drwy e-bost, a oedd yn cynnwys hysbysiad preifatrwydd yn nodi sut y byddai eu data'n cael ei ddefnyddio a'i gadw. Roedd yr arolwg yn fyw am bedair wythnos yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd 2020. Gallai ymatebwyr gymryd rhan trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Fe wnaeth cyfanswm o 11 o ymatebwyr gwblhau'r arolwg ar-lein, un yn Gymraeg a 10 yn Saesneg. Wrth adio'r ymatebion copi caled ac ystyried ymatebion dyblyg, derbyniwyd cyfanswm o 16 o ymatebion allan o gyfanswm o 21 o brosiectau cymunedol. Mae hyn yn darparu syniad ynghylch safbwyntiau prosiectau cymunedol, a bydd yn rhoi arweiniad ar sut y defnyddiwyd prosesau cyfathrebu â'r rhaglen, defnyddio brandio a deunyddiau, a dulliau a graddfeydd casglu data fel tystiolaeth o effaith.

### Cyfweliadau gydag Aelodau Bwrdd y Rhaglen

2.14 Roedd elfen olaf y gwerthusiad yn cynnwys ymchwil ansoddol gyda detholiad o aelodau Bwrdd Rhaglen Cymru'n Cofio. Amcanion y cyfweliadau hyn oedd gofyn i aelodau'r bwrdd fyfyrio ar eu profiad a thrafod agweddau galluogi a heriol y canlynol:

- Nodi swyddogaeth y rhai a gafodd eu cyfweld ar fwrdd y rhaglen a natur eu cyfraniad at yr ymgyrch goffáu;

- Nodi sut yr oedd gweithrediad bwrdd y rhaglen yn llywio gweithgarwch coffa'r sefydliadau perthnasol, ac i'r gwrthwyneb;
- Deall y ffactorau galluogi a rhwystro a wynebwyd wrth gyflwyno strategaeth gyfathrebu a oedd yn cynnwys grwpiau gwahanol, ac a oedd â'r nod o geisio coffáu yn hytrach na dathlu'r Rhyfel Byd Cyntaf;
- Deall sut roedd rhanddeiliaid yn ymgysylltu â'r rhaglen, a myfyrio ar gyfraniad ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth gyflwyno'r rhaglen yn gyffredinol;
- Trafod diffiniadau o lwyddiant y rhaglen a sut y gellid mesur hyn;
- Gwerthuso'r adnoddau yr oedd eu hangen gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno'r rhaglen yn llwyddiannus, er mwyn gwella dysgu yn y dyfodol, gan gynnwys prosesau monitro a gwerthuso data.

2.15 Datblygodd y Rhaglen Ymchwil Fewnol ganllaw pynciau ar gyfer y cyfweliadau mewn cydweithrediad â thîm y rhaglen. Mae'r canllaw pynciau i'w weld yn Atodiad B. Gwahoddwyd pob un o'r 43 aelod o'r Bwrdd i gymryd rhan drwy e-bost a chynhaliwyd deg cyfweliad gyda'r rhai a fynegodd ddiddordeb. Cynhaliwyd wyth cyfweliad yn y Saesneg a dau yn y Gymraeg gan ymchwilwyr o'r Rhaglen Ymchwil Fewnol a changen ymchwil Dyfodol Cynaliadwy. O ganlyniad i'r cyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol a oedd ar waith yn sgil Covid-19, cynhaliwyd pob cyfweliad o bell gan ddefnyddio Microsoft Teams. Cafodd y cyfweliadau eu recordio ar fideo, eu lawrlwytho i systemau ffeilio diogel Llywodraeth Cymru, a'u trawsgrifio. Defnyddiwyd dadansoddiad thematig i echdynnu'r data perthnasol er mwyn ymdrin â'r amcanion. Mae'r dadansoddiad i'w weld yn adran pump o'r adroddiad hwn.

2.16 Mae'r adran ganlynol yn cyflwyno'r model rhesymeg a ddeilliodd o'r gweithdy Damcaniaeth Newid ac yn trafod canfyddiadau'r adolygiad o ddogfennau'r rhaglen er mwyn nodi bwriadau'r gwerthusiad a'r gwaith monitro data a gwblhawyd ers dechrau'r rhaglen.

# 3. Damcaniaeth Newid ac Adolygiad o Ddogfennau

3.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno'r model rhesymeg a ddeilliodd o drafodaeth y gweithdy gyda swyddogion Cymru'n Cofio a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2019. Cynlluniwyd y model hwn yn ôl-weithredol ac felly nid yw'n gynrychiolaeth gywir o resymeg y rhaglen ar ddechrau'r prosiect. Yn hytrach, mae'n gyfuniad o fwriadau cychwynnol y rhaglen a sut yr esblygodd wrth i'r rhaglen ddatblygu. Llwyddodd hyn i roi trosolwg o'r rhaglen i ymchwilwyr y Rhaglen Ymchwil Fewnol. Dilynwyd hyn gan adolygiad o ddogfennau'r prosiect. Bydd manylion canfyddiadau'r adolygiad mewn perthynas â chynlluniau ar gyfer gwerthuso a monitro data yn cael sylw yn yr adran hon.

**Ffigur 3.1: Model Rhesymeg Damcaniaeth Newid Cymru'n Cofio 1914-1918**

**CYD-DESTUN/CEFNDIR**

- Diddordeb y cyhoedd - dangosodd digwyddiadau ymgynghori fod diddordeb amlwg mewn nodi'r canmlwyddiant gan sicrhau bod hynny'n digwydd mewn ffordd briodol
- Canolbwyntio ar goffáu nid dathlu
- Hyrwyddo cynwysoldeb wrth goffáu – yn enwedig ar gyfer pobl ifanc a grwpiau ar y cyrion
- Rhaglen fframwaith ar gyfer cyfathrebu
- Dull grymuso lleol o goffáu

**NODAU AC AMCANION CYMRU'N COFIO**

Y nod cyffredinol oedd *"darparu coffadwriaeth lwyddiannus a chofiadwy yng Nghymru sy'n galluogi pawb i gymryd rhan ar adeg ac mewn modd sy'n gweddu orau i'w diddordebau a'u dyheadau."* (Rhaglen Fframwaith ar gyfer y coffáu yng Nghymru 2014 – 2018, t.11)

Roedd yr amcanion ar gyfer y rhaglen yn eang ac yn bellgyrhaeddol:

Adnabod a nodi pen-blwyddi pwysig, gan weithio gyda sefydliadau a gwasanaethau yng Nghymru, gwledydd eraill y DU a phartneriaid rhyngwladol.

Cefnogi rhaglen addysgol sy'n annog ysgolion a mudiadau pobl ifanc i gymryd rhan yn llawn mewn digwyddiadau coffáu.

Datblygu a chefnogi partneriaethau cynhyrchiol i ddarparu gweithgareddau a digwyddiadau gydol y cyfnod coffáu ar gyfer cynulleidfaoedd amrywiol.

Cefnogi digwyddiadau a gweithgareddau dehongli bywiog gan ein cyrff diwylliannol a'n cyrff treftadaeth, sy'n ystyried diwylliant a hanes ac sy'n adlewyrchu safbwyntiau gwahanol ar y cyfnod.

Sicrhau bod y coffáu yn gadael gwaddol digidol cyfoethog ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Sicrhau bod gwybodaeth am y coffáu yng Nghymru ar gael yn hawdd i bawb yng Nghymru a thu hwnt.

Gweithio gyda Chronfa Dreftadaeth y Loteri a chyllidwyr eraill i gefnogi prosiectau cymunedol sy'n adrodd hanes Cymru a'r Rhyfel Byd Cyntaf.

**MEWNBYNNAU**

Rhanddeiliaid

- Bwrdd y Rhaglen
- Grŵp hyrwyddwyr mewnol (e.e. Cadw).
- Swyddfeydd Brwsel a Dulyn (cymorth gyda chysylltiadau).
- Tîm ffydd
- Athrawon yn helpu i lywio'r cynnig addysg.
- Cydweithwyr Llywodraeth Cymru – cyfathrebu, Cadw, y Lluoedd Arfog ac addysg.

Datblygu'r rhaglen

- Cysylltiadau â'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) – man cychwyn i ddatblygu'r rhaglen.
- Ymgynghori â chydweithwyr (LIC) i ddeall gwersi blaenorol a ddysgwyd.
- Cefnogaeth gan y Cabinet i sicrhau bod yr elfen 'sensitifrwydd' yn gywir.

Digwyddiadau/ymgynghoriadau

- Diwrnodau partneriaeth gyda'r Imperial War Museum.
- Ymgynghoriadau ledled Cymru i ddarganfod beth roedd pobl eisiau ei wneud i goffáu'r rhyfel ac asesu disgwyliadau.

Adnodd amser

- Gweithgorau LIC – dehongliad hanesyddol; gweithgareddau cymunedol; cyfathrebu; arbenigwyr addysg (athrawon).
- Cydbwysedd cyfathrebu a brandio.
- Datblygu rhaglen fframwaith – digwyddiadau ymgynghori a lansio.
- Diwrnodau Partneriaeth (un y flwyddyn) gyda'r Imperial War Museum.
- Amser y tîm, cynghorwyr allanol, byrddau'r rhaglen, gweithgorau, grŵp hyrwyddwyr mewnol Llywodraeth Cymru.
- Cyfarfod ddwywaith y flwyddyn rhwng y Prif Weinidog a chynghorwyr arbenigol.
- Amser cynghorydd arbenigol.
- Amser gweinidogol e.e. digwyddiadau – Prif Weinidog Cymru, gweinidogion eraill gan gynnwys y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth; y Gweinidog Addysg.

Cyllid

- Llywodraeth Cymru Ganolog – Cadw, Diwylliant a Chwaraeon a Chyfathrebu.
- Cronfa arian digwyddiadau cenedlaethol
- Arian cyfatebol (e.e. cyllid cenedlaethol)
- Addysg - £850,000 dros 4 blynedd
- Cronfa Dreftadaeth y Loteri
- Lleol - £3,000 - £10,000; Prosiectau Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Cadw.
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru – derbyniwyd £20,000 y flwyddyn; Amgueddfa Cymru – derbyniwyd £60,000 y flwyddyn (2014-2019; arian cyfatebol)

**GWEITHGAREDDAU**

Llinell amser

↓ Calendr digwyddiadau bob blwyddyn gyda datganiad i'r wasg gan y Prif Weinidog

↓ Mawrth 2012 - Penodi Syr Deian Hopkin yn gynghorydd arbenigol

↓ Hydref 2013 – Digwyddiad lansio; gwahodd y cyfryngau a rhanddeiliaid; codi ymwybyddiaeth

↓ 4 Awst 2014 – Gwasanaeth yn Eglwys Gadeiriol Llandaf

↓ Awst 2014 – Dadorchuddio cofeb Langemark

↓ Gallipolli – Cerflun Everyman – gyda'r Lleng Brydeinig

↓ Digwyddiadau rhyngwladol – digwyddiadau Cymru dramor; Cofeb Langemark a Mametz

↓ 2016 – Digwyddiad rhyngwladol/gwylnos

↓ 2016 – Canmlwyddiant Brwydr Coed Mametz – digwyddiad coffáu ym Mametz

↓ 2017 – Prosiect Cymru/Iwerddon; canolbwyntio ar lenyddiaeth ym Mrwsel ac Iwerddon

↓ 2017 - Trydedd Brwydr Ypres (Passchendaele) – digwyddiad coffáu yn Langemark

↓ 2017-2018 Canmlwyddiant yr Awyrlu Brenhinol – cysylltiad Lloyd George

↓ 2018 Cadoediad – gwasanaeth cofio yn Eglwys Gadeiriol Llandaf

↓ Comisiynu barddoniaeth ar gyfer y digwyddiad a'r cyhoeddiad terfynol

Gweithgareddau Ychwanegol

- Prosiectau/mentrau rhwng y DU ac Iwerddon.
- Amgueddfa a Llyfrgell – sgyrsiau, arddangosfeydd a gweithgareddau addysgol.
- Cynllun grantiau ysgolion – cronfa i helpu ysgolion i gynnal eu gweithgareddau eu hunain.
- Elfennau celf yng Nghymru – UK 14-18 NOW.
- Cymorth ar gyfer digwyddiadau a phrosiectau lleol (Cadw).

## ALLBYNNAU

Manteision i Lywodraeth Cymru

- Partneriaethau rhwng LIC ac eraill e.e. Senedd Fflandrys, cysylltiadau rhyngwladol ac ati.
- Ymateb cadarnhaol – Llywodraeth Cymru yn cael ei dangos mewn goleuni da – enw da ac effaith.
- Cysylltiadau agos â swyddfa Brwsel a phennaeth swyddfa Dulyn.

Ymgysylltu â'r cyhoedd

- Codi ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd.
- Sensitifrwydd gyda brandio a therminoleg.

Gweithio mewn partneriaeth

- Cynnwys grwpiau ffydd, y Ganolfan Heddwch, sefydliadau diwylliannol, y celfyddydau ac ati.
- Cadw – lefel leol i frocera partneriaethau.
- Cysylltiadau gwell e.e. yn y gweithgorau.

Amcanion y Rhaglen (yn gysylltiedig â'r Rhaglen Fframwaith)

- Cymorth pwrpasol gan fodloni nodau/amcanion Cymru'n Cofio.

Allbynnau gweladwy

- Arddangosfeydd dros dro.
- Cyhoeddiad terfynol ar draws 7 mlynedd gyda digwyddiadau yn y Senedd.
- Cyfrifon y cyfryngau cymdeithasol.
- Rhaglen flynyddol o ddigwyddiadau (2014-2018) gyda chyhoeddiadau ad hoc yn ôl y gofyn.
- Canllawiau ar gyfer grwpiau lleol.

CANLYNIADAU

<u>Manteision i Lywodraeth Cymru</u>

- Gwybodaeth ar gyfer rhaglenni'r dyfodol.
- Arbenigedd mewn ymdrin â chynllunio rhaglen fawr a'r elfen sensitifrwydd.

<u>Ymgysylltu â'r cyhoedd</u>

- Cyfranogiad cenedlaethau – digwyddiad yn y Senedd Ieuenctid ar ddiwedd y rhaglen.
- Hyrwyddo cynwysoldeb mewn gweithgareddau coffa h.y. gyda grwpiau ymylol.

<u>Gweithio mewn partneriaeth</u>

- Gwybodaeth am drefnu a phwy ddylai gymryd rhan.

<u>Canlyniadau gweladwy</u>

- Arddangosfeydd
- Gwaddol digidol – Casgliad y Werin Cymru
- Gwefan Cymru'n Cofio – adran waddol
- Adfer cofebau rhyfel
- Cronfa ddata'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig – llun ac enw pob milwr

## EFFEITHIAU

### Perchnogaeth coffáu

- Galluogi grwpiau i ddewis beth i'w wneud a gwybod sut i ddod o hyd i wybodaeth.

### Gwaddol

- Sicrhau bod adnoddau a ddatblygwyd yn ystod y rhaglen yn parhau i fod ar gael.

### Coffáu profiadau amrywiol

- Lefel Cymru – coffáu a deall lleisiau ar y cyrion na chawsant lawer o sylw o'r blaen.

### Cyfathrebu ar bob lefel

- Lefel y DU – Cymru wedi'i chynrychioli mewn digwyddiadau coffáu ar lefel y DU.
- Cyfranogiad lleol ac ehangach – cyfranogiad ar bob lefel
- Cyrhaeddiad rhyngwladol (pen-blwydd digwyddiadau sy'n gysylltiedig â Chymru).
- Gwella addysg yn ymwneud â'r Rhyfel Byd Cyntaf – ysgolion uwchradd ac addysg uwch wedi'u targedu'n benodol.
- Gwaddol digidol – addysg a dysgu.

### Gwersi a ddysgwyd ar gyfer Llywodraeth Cymru

- Codi ymwybyddiaeth o raglen y Rhyfel Byd Cyntaf.
- Cofnodi gwersi a ddysgwyd i'w defnyddio yn y dyfodol.
- Sylw yn y cyfryngau (lefel a naws).
- Llywio prosesau cyfathrebu yn y dyfodol – pen-blwydd 75 diwrnod VE; digwyddiadau cenedlaethol; gwersi a ddysgwyd.
- Digwyddiadau yn y dyfodol – defnyddio gweithgor i greu cysylltiadau.
- Mae'r gwersi a ddysgwyd hefyd yn cynnwys sefydliadau ac unigolion allanol a fu'n gweithio gyda LlC ar y digwyddiadau coffáu, a'u profiad (yn dysgu o'u rhaglenni eu hunain hefyd).

**Adolygu Dogfennau ac Argaeledd Data**

3.2 Mae'r adran hon yn cyflwyno gwybodaeth am hyd a lled gwaith cynllunio'r gwerthusiad ac argaeledd data sydd i'w weld yn ffeiliau'r rhaglen. Mae'r adran hon yn adolygu gwybodaeth sydd ar gael gan (i) y prosiectau cymunedol a ariannwyd; (ii) y cynllun grantiau ysgolion, a; (iii) cynllun grantiau Cadw. Ym mhob achos, mae argaeledd data wedi'i adolygu a'i werthuso, a thrafodir sut y defnyddiwyd y data i ddangos effaith lle bo hynny'n berthnasol. Hefyd, bydd yr adran hon yn ymdrin â'r effeithiau sy'n anodd eu nodi oherwydd cyfyngiadau'r data sydd ar gael.

*Prosiectau Cymunedol a Ariannwyd*

3.3 Ariannwyd cyfanswm o 21 o brosiectau gan Cymru'n Cofio drwy gydol y rhaglen. Ym mhob achos, cyflwynodd pob prosiect achos busnes llawn i'r rhaglen i gael cymeradwyaeth ar gyfer cyllid. Yn ei ffurf fwyaf manwl, byddai achos busnes yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:

1. Buddsoddiad / Amcanion y Prosiect
2. Trosolwg o'r Prosiect
3. Cyd-destun Strategol
4. Yr Achos dros Newid
5. Arfarniad o Fanteision
6. Gweithgaredd Arfaethedig
7. Cyllid a Chaffael
8. Amserlenni a Monitro
9. Unigolion Cyswllt Allweddol y Prosiect

3.4 Adolygwyd achos busnes pob prosiect i ddeall i ba raddau y rhoddwyd sylw i ystyried ac ariannu gwaith monitro a gwerthuso ar ddechrau'r prosiect. Argymhellir ystyried dull gwerthuso o'r cychwyn cyntaf fel bod modd cynnal mesuriadau llinell sylfaen o fetrigau allweddol, gan fesur cynnydd a'r effaith gyffredinol mewn ffordd gywir. Ar gyfer pob prosiect, roedd y graddau yr ystyriwyd gwaith monitro a gwerthuso yn amrywio'n fawr, o ddiffyg cyfeiriad o gwbl hyd at gynlluniau manwl ar gyfer gwerthuso a mesur metrigau penodedig er mwyn dangos tystiolaeth o effaith. Mae'r broses o ddefnyddio dulliau gwerthuso cychwynnol a chasglu data monitro mewn ffordd gyson drwy gydol y prosiect ac ar ddiwedd y prosiect yn darparu

sylfaen dda ar gyfer deall effaith ymyriad. Yr opsiwn mwyaf ymarferol oedd cysylltu'r amcanion gwerthuso yn yr achos busnes â'r adroddiad ar ddiwedd y prosiect. Un o ofynion y rhaglen oedd cyflwyno adroddiad ar ddiwedd y prosiect yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Gwybodaeth sylfaenol gan gynnwys manylion y prosiect, y grant a ddyfarnwyd ac amodau'r grant.

3.5 Gofynnwyd am dystiolaeth ysgrifenedig ar gyfer y canlynol:

- Sut y bodlonwyd amodau'r grant;
- Trosolwg cryno o'r prosiect, gan gynnwys y nodau a'r amcanion;
- Canlyniadau a chyflawniadau cadarnhaol y prosiect;
- Manylion am y gweithgareddau a gynhaliwyd, gan sicrhau bod unrhyw weithgaredd a nodir yn berthnasol i'r hyn a nodir yn yr achos busnes;
- Canlyniadau'r prosiect ac unrhyw wybodaeth fonitro a ddefnyddiwyd i asesu canlyniadau a deilliannau;
- Unrhyw broblemau a gododd a sut y cawsant eu datrys, ac;
- Unrhyw sylwadau eraill neu wersi a ddysgwyd.

3.6 Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd yr adroddiadau'n gymharol fanwl ac yn darparu data ar ystod o fetrigau, yn rhai meintiol e.e. nifer yr ymwelwyr, nifer yr ymweliadau addysgol; ac ansoddol e.e. adborth ymwelwyr a thystiolaeth o bartneriaethau a chydweithio newydd.

3.7 Fodd bynnag, nodwyd nifer o faterion wrth gymharu'r achos busnes â'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad ar ddiwedd y prosiect ac wrth ddod i gasgliadau am effaith:

1. Ar gyfer rhai prosiectau, nid oedd unrhyw dystiolaeth bod cynllun monitro a gwerthuso wedi'i gwblhau ar ddechrau'r prosiect, ac felly nid oedd unrhyw fesuriadau llinell sylfaen y gellid eu defnyddio i gymharu canlyniadau. Felly, roedd yn anodd canfod effaith a phriodoli'r effaith honno i'r gweithgaredd a ariannwyd.
2. Ar gyfer prosiectau lle'r oedd gwerthusiad wedi'i ystyried, roedd yn anodd defnyddio'r dogfennau a oedd ar gael i ganfod a oedd mesurau llinell sylfaen

wedi'u cymryd, ac ar ba adegau yn y prosiect roedd cynnydd wedi'i fonitro e.e. ar adegau penodol yn ystod y prosiect a/neu ar ddiwedd prosiect. Nid oedd llawer o fanylion pellach i ategu'r adroddiad ar ddiwedd y prosiect.

3. Roedd yr adroddiadau ar ddiwedd y prosiect yn gymharol brin o fanylion yn ymwneud â gallu'r metrigau a fesurwyd i ddangos effaith, ac weithiau roedd yn anodd i'r prosiect wahanu effaith yr ymyriad a ariannwyd oddi wrth weithgarwch arall nas ariannwyd. Er enghraifft, ni allai gwerthiant tocynnau ar gyfer arddangosfa ddatgelu a oedd ymwelwyr wedi ymgysylltu ag arddangosfa benodol a ariannwyd gan y rhaglen, ac felly roedd nifer cywir yr ymwelwyr â'r arddangosfa yn anhysbys.
4. Nid oedd rhai prosiectau wedi cyflwyno adroddiad diwedd prosiect, gan olygu nad oedd unrhyw ddata ar gael i werthuso'r gweithgaredd a ariannwyd.

3.8 Yn achos y prosiectau hynny yr oedd cynllun gwerthuso wedi'i baratoi ar eu cyfer, a data wedi'i gasglu i ddangos effaith, bu'n rhaid dwyn yr elfennau hyn ynghyd i lunio adroddiad a oedd yn gymesur â graddfa'r prosiect, gan amlinellu natur a hyd a lled yr effaith, ac ymgorffori adborth ansoddol lle bo hynny'n berthnasol.

3.9 Roedd ffurflen werthuso hefyd ar gael ar wefan Cymru'n Cofio i'w chwblhau gan y rhai a oedd yn trefnu digwyddiadau coffa. Roedd modd cynnwys y data canlynol:

- Manylion sylfaenol y digwyddiad;
- Amcanion y digwyddiad;
- Y sianeli cyhoeddusrwydd a ddefnyddiwyd;
- Manylion y gyllideb farchnata;
- Nifer yr ymwelwyr â'r digwyddiad;
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid (yn ôl canran y rhanddeiliaid a fynychodd);
- Incwm o werthu tocynnau;
- Gwariant fesul ymwelydd;
- Adborth ymwelwyr (testun), ar gyfer sianelau wyneb yn wyneb a digidol, a;
- deunyddiau Cymru'n Cofio a ddefnyddiwyd.

3.10 Gallai digwyddiadau ddewis ai cwblhau'r ffurflen, ac roedd ar gael am gyfnod ar y wefan. Fodd bynnag, ni chafodd ei chwblhau gan y rhan fwyaf o drefnwyr digwyddiadau.

3.11 Yn gyffredinol, byddai prosiectau a threfnwyr digwyddiadau a gafodd eu hariannu gan grantiau yn cael budd o ymgymryd â chynllun gwerthuso, nodi metrigau mesuradwy a llunio adroddiad gwerthuso ar ddiwedd y prosiect, gan ei gwneud hi'n haws iddynt benderfynu a oedd y data wedi cyflawni'r canlyniadau bwriadedig. Byddai hyn yn safoni'r dull monitro a'i gwneud yn haws nodi canlyniadau ac effeithiau, a sut mae'r mentrau wedi llywio'r rhaglen yn ei chyfanrwydd.

*Cynllun Grantiau Ysgolion*

3.12 Rhwng 2014 a 2018, cefnogwyd agwedd Addysg y rhaglen hon gan ddyraniad o £850,000, ac roedd yn cynnwys tair elfen, sef:

- Adnoddau addysgol digidol dwyieithog pwrpasol ar gyfer Ysgolion Cymru, wedi'u cynhyrchu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru (LlGC);
- Ap 'Cymru yn y Rhyfel', sef ap dwyieithog, rhyngweithiol i Gymru sy'n galluogi ysgolion ac aelodau'r cyhoedd i gael 'mynediad' at theatrau rhyfel o'u hystafelloedd dosbarth yng Nghymru;
- Cynllun grantiau bach (hyd at £1,000 fesul ysgol) sydd ar gael i bob ysgol uwchradd yng Nghymru i'w galluogi i ddatblygu eu gweithgareddau coffáu eu hunain o'r Rhyfel Byd Cyntaf, sef cyfanswm o £279,000 dros bedair blynedd;

3.13 Darparwyd cyllid ychwanegol i wella elfen 'Ewch i Weld' Addysg sy'n Gyfoethog o Gelfyddydau, a weinyddir drwy Gyngor Celfyddydau Cymru, ar gyfer cyfnod 2018-19, a gwnaed cyfanswm o 72 o ddyfarniadau ariannu i ysgolion drwy'r llwybr hwn yn ystod 2018-19.

*Cynllun Grantiau Cadw*

3.14 Llwyddodd cynllun grantiau Cadw i ddarparu cyllid grant ar gyfer sefydliadau neu unigolion sy'n gyfrifol am gofeb ryfel i wneud gwaith atgyweirio a chynnal a chadw ar gofebau rhyfel. Roedd angen y wybodaeth ganlynol ar gyfer ceisiadau am grantiau;

- Dogfennau yn ymwneud â hanes y gofeb;
- Ffotograffau o'r gofeb;
- Mapiau yn dangos lleoliad y gofeb;
- Dogfennau yn dangos y tri dyfynbris a gafwyd ar gyfer y gwaith arfaethedig;
- Lluniadau pensaernïol, arolygon a chyngor proffesiynol arall;

- Crynodeb o’r gwaith arfaethedig.

3.15 Datgelodd adolygiad o’r ffeiliau rywfaint o ohebiaeth a gwaith gweinyddol yn ymwneud â dyfarnu grantiau ar gyfer y gwaith hwn, ond nid oedd unrhyw ohebiaeth yn ymwneud â chwblhau’r gweithgaredd neu ei ganlyniadau. Roedd gwerthuso’r gwaith hwn y tu allan i’n cwmpas, ond nodir y dylid ystyried y potensial ar gyfer mesur effaith ymgymryd â phrosiectau o’r fath mewn unrhyw raglen goffáu yn y dyfodol. Bydd y broses o gysylltu gweithgarwch a ariannwyd yma â gweithgarwch cyffredinol y rhaglen, a phennu metrigau priodol fel rhan o resymeg gyffredinol yr ymyriad (a amlinellir mewn model rhesymeg), yn dangos sut mae’r gwaith hwn wedi gwella cydnabyddiaeth o effaith y Rhyfel Byd Cyntaf mewn cymunedau.

3.16 Bydd canfyddiadau’r adolygiad o’r ddogfen yn cael eu cynnwys yn yr adran casgliadau ac argymhellion ar ddiwedd yr adroddiad hwn. Mae’r ddwy adran ganlynol yn dadansoddi canlyniadau’r arolwg gyda phrosiectau cymunedol a’r cyfweliadau gydag aelodau bwrdd y rhaglen, gan fyfyrio ar eu profiadau o ymwneud â Cymru’n Cofio.


# 4. Arolwg gyda Phrosiectau Cymunedol

4.1 Mae'r adran ganlynol yn amlinellu canfyddiadau allweddol yr arolwg gyda phrosiectau cymunedol.

**Prosiectau sy'n gwneud cais am gymorth gan y rhaglen**

4.2 Ni chafodd y rhan fwyaf o'r prosiectau a arolygwyd gymorth gan Cymru'n Cofio i gyflwyno eu prosiect (10) gyda chwech yn dweud eu bod wedi derbyn cymorth.


**Ffigur 4.1: A wnaethoch chi ofyn am gymorth gan Cymru'n Cofio i helpu i gyflwyno eich prosiect / digwyddiad?**




4.3 O'r rhai na chawsant unrhyw gymorth, y rheswm a nodwyd amlaf oedd nad oeddent yn ymwybodol bod y cymorth ar gael[2] (3), nad oedd angen cymorth arnynt (2) a bod y broses o wneud cais am gymorth, a'i dderbyn, yn rhy gymhleth (1). Nododd ymatebion eraill eu bod eisiau ymgymryd â'r prosiect yn eu hamser eu hunain (1) a'u bod yn dymuno hunan-ariannu'r prosiect (1).

[2] Nid oedd cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru ar gael ar drefniant galwad agored. Cafodd ceisiadau am gymorth ariannol eu cyfeirio at Gronfa Dreftadaeth y Loteri, a oedd â chynllun grantiau penodedig ar gyfer y prosiectau hyn.

**Ffigur 4.2: Pa fath o gymorth a gawsoch?**





4.4 Y math mwyaf cyffredin o gymorth a gafwyd oedd cymorth gan gyfryngau cymdeithasol (5) neu gyhoeddiadau (5) Cymru'n Cofio, ac roedd eraill wedi ceisio cael cymorth drwy'r wefan (4) a'r Rhaglen Fframwaith ar gyfer Coffáu yng Nghymru (4).

**Brandio**

4.5 Gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn am eu hymwybyddiaeth a'u defnydd o frandio Cymru'n Cofio[3].


[3] Roedd brandio Cymru'n Cofio i'w ddefnyddio ar gyfer prosiectau a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru a'r rhai a ariannwyd gan sefydliadau partner yn unig.

**Ffigur 4.3: Oeddech chi'n ymwybodol bod yna frandio penodol ar gyfer Cymru'n Cofio?**




4.6 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn ymwybodol o frandio Cymru'n Cofio (11). Nid oedd pedwar prosiect yn ymwybodol bod brandio penodol ar gael.


**Ffigur 4.4: Oeddech chi'n ymwybodol mai Llywodraeth Cymru oedd yn darparu brandio i'w ddefnyddio gan brosiectau Cymru'n Cofio?**





4.7 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn ymwybodol mai Llywodraeth Cymru oedd yn darparu brandio Cymru'n Cofio (10). Dywedodd saith o'r 12 ymatebydd[4] a atebodd y cwestiwn hwn eu bod yn defnyddio'r brandio ar ddeunydd a gyhoeddwyd ganddynt.

[4] Atebwyd y cwestiwn hwn gan ddeuddeg o'r un ar bymtheg o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn.

**Ffigur 4.5: A wnaethoch chi ddefnyddio'r brandio ar unrhyw ddeunydd a gyhoeddwyd fel rhan o'ch prosiect / digwyddiad?**[5]




**Ffigur 4.6: Ble wnaethoch chi ddefnyddio'r brandio?**





4.8 Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr eu bod wedi defnyddio'r brandio ar gyhoeddiadau print a deunyddiau hyrwyddo eraill (7) yn ogystal ag ar y cyfryngau cymdeithasol (6) ac mewn digwyddiadau (6).

[5] Cyfanswm yr ymatebion i'r cwestiwn hwn: 12. Ni wnaeth pedwar ymateb i'r cwestiwn hwn.


**Ymwybyddiaeth o fwrdd y rhaglen**

4.9 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn ymwybodol o fwrdd y rhaglen a'i rôl yn y rhaglen goffáu ac roedd 11 o'r 16 ymatebydd wedi ateb yn gadarnhaol i'r cwestiwn hwn.

**Ffigur 4.7: A oeddech chi'n ymwybodol bod bwrdd rhaglen yn goruchwylio'r coffáu?**




**Ffigur 4.8: A gawsoch chi unrhyw gysylltiad â bwrdd y rhaglen / aelodau bwrdd y rhaglen wrth gyflwyno eich prosiect / digwyddiad?**





4.10 Roedd wyth o'r 16 ymatebydd wedi cael cysylltiad ag aelodau bwrdd y rhaglen wrth gyflwyno eu prosiect neu ddigwyddiad. O'r rhai a atebodd y cwestiwn dilynol ynglŷn â natur y cysylltiad â'r Bwrdd, nododd tri eu bod wedi mynychu cyfarfodydd neu ddigwyddiadau, ac roedd pump yn aelodau o'r Bwrdd yn ogystal ag yn ymwneud â

chyflwyno prosiect. Dywedodd un ymatebydd ei fod wedi rhoi diweddariad i'r Bwrdd am ei brosiect.

**Ansawdd ymgysylltiad â Rhaglen Cymru'n Cofio**

4.11 O'r rhai a fu'n ymgysylltu â bwrdd y rhaglen, roedd yr adborth ar ansawdd yr ymgysylltu yn gadarnhaol ar y cyfan. Roedd pob un o'r wyth yn teimlo bod y graddau yr ystyriwyd eu barn yn dda iawn. Teimlai'r rhan fwyaf fod y cymorth a roddwyd i ddatrys materion naill ai'n dda neu'n dda iawn, a dim ond un ymatebydd a ddewisodd 'y naill na'r llall' fel ateb. Cafwyd ymateb tebyg i'r cwestiwn am ansawdd y cyfathrebu, amlder y cyfathrebu ac i ba raddau roedd gan brosiectau ymreolaeth dros eu prosiectau.

**Ffigur 4.9: Sut y byddech chi'n disgrifio'r agweddau canlynol ar ymgysylltu â rhaglen Cymru'n Cofio?**





4.12 Ni atebodd unrhyw un o'r ymatebwyr y cwestiwn ychwanegol ynglŷn ag a fyddai unrhyw gymorth ychwanegol wedi bod yn fuddiol. Roedd y ffaith hon, ynghyd â'r data yn y ffigur uchod, yn dangos lefel uchel o foddhad â'r broses o ymgysylltu â'r rhaglen.


### Casglu a monitro data

4.13 Roedd deg o'r 16 ymatebydd yn casglu data ar gyfranogwyr a gymerodd ran mewn prosiectau neu ddigwyddiadau. Roedd y data hwn yn ymwneud â mynychwyr neu gyfranogwyr yn bennaf, ond dim ond un a gasglodd wybodaeth ddemograffig gan gyfranogwyr, ac felly ychydig sy'n hysbys am amrywiaeth y cynulleidfaoedd.

**Ffigur 4.10: A wnaethoch chi gasglu unrhyw ddata neu wybodaeth fonitro am gyfranogwyr a fynychodd eich prosiect / digwyddiad?**




**Ffigur 4.11: Pa ddata wnaethoch chi ei gasglu?**



4.14 Yn bennaf, roedd y prosiectau wedi casglu data ar nifer y cyfranogwyr neu fynychwyr (11) ac adborth ar ddigwyddiadau a gynhaliwyd (8). Ychydig iawn a gasglodd wybodaeth ddemograffig neu unrhyw wybodaeth arall. Pan ofynnwyd i ymatebwyr sut yr oeddent yn bwriadu defnyddio'r data a gasglwyd, roedd yr ymatebion mwyaf cyffredin yn cynnwys; er mwyn llywio'r broses o wella rhaglenni (3), rhoi adborth i gyllidwyr neu i'w bwrdd (2), mesur effaith (2) a hyrwyddo digwyddiadau yn y dyfodol (2).

4.15 Dywedodd dau o'r ymatebwyr nad oeddent yn cofnodi data monitro nad oedd ganddynt yr adnoddau i wneud hynny. Roedd rhesymau eraill yn cynnwys materion hawlfraint (1), y ffaith nad oeddent yn hyrwyddo digwyddiadau ac felly nad oedd ganddynt y gallu i gasglu data (1), ac nad oedd yn ofynnol iddynt wneud hynny (1).

# 5. Cyfweliadau gyda Bwrdd y Rhaglen

5.1 Mae'r adran hon yn tynnu sylw at y prif themâu mewn trafodaethau ag aelodau bwrdd y rhaglen. Mae'r canllaw pynciau ar gyfer y cyfweliadau i'w weld yn Atodiad B. Mae'r adran hon yn ymdrin â barn aelodau'r bwrdd ar swyddogaeth y bwrdd, cyflwyno'r strategaeth gyfathrebu, cyflawni'r nodau a'r amcanion o safbwynt amrywiaeth a chynwysoldeb a diffiniadau a mesurau llwyddiant, ac effaith y rhaglen yn ei chyfanrwydd. Defnyddir dyfyniadau gair-am-air gan y rhai a gafodd eu cyfweld i ddangos pwyntiau perthnasol a'r canfyddiadau. Mae'r canfyddiadau hyn, ochr yn ochr â chanfyddiadau'r adolygiad o'r ddogfen a'r arolwg, wedi'u crynhoi yn y casgliadau, ac mae argymhellion wedi'u gwneud ar sail y canfyddiadau hyn.

**Swyddogaeth Bwrdd y Rhaglen**

*Y Bwrdd fel Hwylusydd*

5.2 Roedd consensws ymysg y rhai a gafodd eu cyfweld fod y bwrdd yn alluogwr, yn hwylusydd ac yn gydweithredwr drwy gydol y rhaglen.

5.3 Cyfeiriodd nifer o'r rhai a gafodd eu cyfweld at y ffaith fod y bwrdd yn gallu nodi cysylltiadau rhwng sefydliadau a nodi cyfleoedd ar gyfer cydweithio rhwng aelodau drwy sgyrsiau a thrafodaethau hwyluso.

> *"…gyda chymorth tîm y gwasanaeth sifil [...] [gallent] nodi [...] pa randdeiliaid lluosog oedd yn cymryd rhan yn y sgyrsiau, gan hwyluso a chymryd rhan yn y sgyrsiau i ryw raddau [...] Rwy'n credu bod y rhan fwyaf o'r gwaith defnyddiol iawn wedi'i wneud rhwng cyfarfodydd y bwrdd pan gafwyd sylwadau fel 'o, rydych chi'n gweithio ar hynny, maen nhw'n gweithio ar hyn, chi a nhw, fe wnawn ni drefnu sgwrs ffôn i ddod â chi at eich gilydd er mwyn trefnu prosiect ar y cyd' [...] byddai cyfleoedd yn cael eu nodi, byddent yn hwyluso'r sgyrsiau, bydden ni'n bwrw iddi ac yn adrodd yn ôl wedyn."*

5.4 Hefyd, cyfeiriodd rhai o'r unigolion a gafodd eu cyfweld at gyllid fel galluogwr.

> *"…roedden nhw'n gallu ariannu un neu ddau o brosiectau lle'r oedd cyfleoedd newydd ac annisgwyl wedi codi mae'n debyg, cyn dechrau'r cyfnod coffáu, a llwyddodd Cymru'n Cofio i ddarparu symiau bach o arian fel bod pethau'n gallu digwydd"*

*"Wel [...] cyllid oedd y prif beth"*

5.5 Cyfeiriodd llawer o'r rhai a gafodd eu cyfweld at gyfranogiad Llywodraeth Cymru fel galluogwr. Er enghraifft, roedd un ymatebydd yn teimlo bod yna fwy o gapasiti o fewn Llywodraeth Cymru o'i gymharu â rhai sefydliadau trydydd sector, gan olygu bod modd lleihau'r llwyth gwaith ar lefel ymarferol, pan oedd angen.

*"O safbwynt galluogwyr, roedd y ffaith bod gan Lywodraeth Cymru nifer o bobl yn gweithio ar y rhaglen a oedd yn gallu gwneud cryn dipyn o'r gwaith cefndir yn help enfawr…"*

5.6 Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at bresenoldeb y Prif Weinidog ac aelodau'r Senedd mewn nifer o ddigwyddiadau Cymru'n Cofio fel galluogwr; yn enwedig o ran sicrhau elfen unigryw Gymreig ar gyfer y rhaglen.

*"Un peth mae'n rhaid i mi ei nodi yw ymwybyddiaeth lawn [y Prif Weinidog] o'r hyn a oedd yn digwydd gyda'r rhaglen. Fe ddaeth y Prif Weinidog i'n cyfarfodydd ac roedd wedi cyfarfod ag aelodau o'n Bwrdd ar sawl achlysur a bu'n cymryd rhan yn aml yn y gweithgareddau a gynhaliwyd fel rhan o'r rhaglen... Dangosodd hyn fod Llywodraeth Cymru [...] a phroses Cymru'n Cofio yn llawer agosach na'r hyn roedd pobl yn ei disgwyl"*

*"…Fe gafodd tîm Cymru'n Cofio effaith weladwy iawn o safbwynt gwaith cydgysylltu, cymorth, a darparu peth cyllid sbarduno er mwyn gwneud i bethau ddigwydd. Wedyn, roedd y broses o gynnwys gweinidogion ac yn y blaen yn bwysig, gan greu digwyddiad y bydd y rhai a oedd yn ymwneud ag e yn ei gofio am 30/40 mlynedd."*

5.7 Cyfeiriodd rhai o'r unigolion a gafodd eu cyfweld at weithgorau bach fel elfen alluogi o'r bwrdd am eu bod yn caniatáu trafodaethau ymarferol manylach na'r hyn a oedd yn ymarferol mewn cyfarfodydd bwrdd mawr. Cyfeiriodd un unigolyn a gafodd ei gyfweld at y ffaith fod gweithgorau wedi sicrhau llais i holl aelodau'r bwrdd.

*"…weithiau roedd yn anodd oherwydd bod cymaint o bobl yno, felly roedd y gweithgorau'n ddefnyddiol iawn. Weithiau, os nad oedd modd i rywun fod yn aelod o brif fwrdd y rhaglen, roedd yn gallu cyflawni swyddogaeth mewn gweithgor, ac roedd yn teimlo bod ganddo lais."*

*Bwrdd Cefnogol*

5.8 Nododd llawer o'r rhai a gafodd eu cyfweld fod y bwrdd yn gefnogol ac yn gynhwysol. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo'n gyfforddus yn ystod y cyfarfodydd a'u bod yn cael eu hannog i gyfrannu eu holl syniadau.

> *"Fe gawson ni lawer o hwyl. Yn fy marn i, os nad yw pobl yn mwynhau bod ar bwyllgor neu fod yn rhan o grŵp fel hwn, yna does dim pwrpas iddo. Rwy'n credu bod angen i chi allu ymlacio a theimlo'n gyfforddus."*

> *"Os ydych chi am gael sgyrsiau a thrafodaethau cynhwysol a pherthnasol, mae angen rhoi amser a lle i bobl wneud hynny mewn ffordd sy'n gyfforddus iddyn nhw. Yn gyffredinol, rwy'n credu bod yr elfen hon wedi'i thrin yn dda".*

5.9 Siaradodd un ymatebydd yn gadarnhaol am gryfder y cysylltiadau a gafodd eu meithrin mewn ffordd ragweithiol o fewn y bwrdd. Ym marn yr unigolyn hwn, nid yw cysylltiadau o'r fath yn cael blaenoriaeth mewn byrddau eraill yn aml.

> *"…Rwy'n credu bod rhywbeth gweithredol hefyd ynglŷn ag annog tîm cydgysylltu i fod yn rhagweithiol iawn wrth ddatblygu cysylltiadau a meithrin dealltwriaeth o bwy yw'r cyfranogwyr gwahanol, natur y prosiectau a'r cysylltiadau rhyngddynt [...] oherwydd ei bod yn gymharol hawdd anwybyddu materion o'r fath a chael perthynas sydd ychydig yn drafodol…"*

5.10 Awgrymodd rhai ymatebwyr fod y cysylltiadau ymddiriedus a deinamig hyn yn golygu bod modd datrys anghydfodau yn gymharol hawdd, fel y gwelir yn y dyfyniad isod.

> *"…Rwy'n credu bod yna ambell dro [...], pan roedden ni'n meddwl bod problem wedi codi, ond fe wnaethon ni fynd o'i chwmpas hi, ac rwy'n meddwl, oherwydd ein bod wedi meithrin cysylltiadau ac ymddiriedaeth dda, [...] bod hynny wedi ein helpu i ddatrys y peth a sicrhau bod popeth yn cael ei wneud yn brydlon…"*

5.11 Roedd llawer o'r rhai a gafodd eu cyfweld o'r farn nad oedd y bwrdd yn hierarchaidd, a nododd nifer ohonynt fod y Cadeirydd a'r Cyd-Gadeirydd yn gyfeillgar ac yn hawdd mynd atynt.

*"Rwy'n credu ein bod wedi gweithio'n effeithiol gyda'n gilydd oherwydd bod ymddiriedaeth o fewn y bwrdd bod modd llwyddo, neu y byddai'n bosibl cynnwys partneriaid a fyddai'n cefnogi nodau'r bwrdd. Roedd gennym berthynas waith agos gyda'r holl bartneriaethau allweddol [...] roedd yn teimlo fel amgylchedd cymharol ddiogel i gynnal sgyrsiau [...] doedd dim unrhyw fath o ymagwedd hierarchaidd lym ar waith…"*

*"…wnaethon ni erioed deimlo'n israddol neu'n annigonol mewn unrhyw ffordd".*

5.12 Cyfeiriodd y rhan fwyaf o'r rhai a gafodd eu cyfweld at allu'r bwrdd i gyfuno digwyddiadau proffil uchel ar raddfa fawr â phrosiectau cymunedol/lleol ar raddfa lai. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at ddulliau gwahanol y bwrdd o gefnogi digwyddiadau; er bod angen trefnu rhai o'r digwyddiadau mawr o'r brig i lawr, roeddent hefyd yn sicrhau dull o'r gwaelod i fyny ar gyfer prosiectau ar raddfa fach.

*"…o grwpiau bach, grwpiau cymunedol bach mewn lleoedd gwahanol, i'r sefydliadau mawr a oedd yn cynllunio digwyddiadau, rwy'n credu ei bod yn rhaglen uchelgeisiol iawn ar sawl ystyr mae'n debyg, ond i mi, roeddwn i'n teimlo ei bod yn effeithiol iawn o ran dwyn ynghyd yr holl elfennau hynny, ac arwain y gwaith".*

*Ymdeimlad o Ymdrech Gydlynus*

5.13 Dywedodd rhai ymatebwyr fod ymdeimlad o ymdrech gydlynus yn amlwg ar ddechrau'r rhaglen. Awgrymodd y rhai a gafodd eu cyfweld fod ymdrech gydlynus yn golygu bod y rhaglen yn cael ei llywio gan frwdfrydedd a budd a diddordeb personol yr holl aelodau a oedd yn cyfrannu fel gwirfoddolwyr, yn hytrach na Llywodraeth Cymru yn unig.

*"Yn y pen draw, roedden ni'n dibynnu'n fawr ar frwdfrydedd ac egni'r bobl a oedd yn cyfrannu at y rhaglen yn hytrach nag ar ein gallu i gydlynu a chyflwyno'r digwyddiadau."*

*Y Bwrdd fel Cynghorydd*

5.14 Un o'r themâu cyson a gododd yn y cyfweliadau oedd y ffaith nad oedd y bwrdd yn pennu tasgau, ond yn hytrach ei fod yn gweithredu fel cynghorydd a ffynhonnell ar gyfer rhagor o wybodaeth a chymorth.

*"…Mae'n bwysig nodi nad oedd y Bwrdd ei hun yn gyfrifol am unrhyw beth mewn gwirionedd, dim ond Bwrdd cynghori oedd e…"*

*"…Er bod pawb yn cael y cyfle i ddweud eu dweud, roedd y bwrdd yn ei gwneud yn glir bob amser nad oedd eisiau dweud wrth bartneriaid unigol beth i'w wneud, beth i'w gefnogi a pha brosiectau y gallent gael arian ar eu cyfer neu eu cychwyn[... ] Alla'i ddim cofio'r un achlysur pan oeddwn i'n aelod o'r bwrdd pan oedd [...] cyfranogwyr yn cael eu gorfodi i wneud penderfyniadau nad oedden nhw o bosib am eu gwneud. Rwy'n credu bod y broses mor ddemocrataidd ag y gallai fod o ddefnyddio'r mathau yma o bwyllgorau."*

5.15 Cyfeiriodd yr ymatebwyr at y syniad mai rôl y bwrdd oedd darparu cyngor arbenigol ar briodoldeb ac addasrwydd digwyddiadau a phrosiectau gan fod arbenigwyr gwahanol yn gwasanaethu ar y bwrdd (e.e. Haneswyr, Cyngor y Celfyddydau, Fforwm Ffydd a'r lluoedd arfog ac ati). Er enghraifft, un thema a gododd yn gyson oedd y ffaith fod y bwrdd wedi cynghori y dylai'r rhaglen fod â naws goffa yn hytrach na naws dathlu.

*"Felly, fe gawsom gyngor gan bobl ar sut y dylem gyfeirio at y digwyddiadau coffa. Dylai'r digwyddiadau fod yn rhai coffáu, ac ni ddylent byth fod yn rhai dathlu. Felly, fe weithiodd yr elfen hon yn dda iawn i sicrhau ymgysylltiad pobl yn gynnar, fel bod naws a llais cyffredin ar gyfer y coffáu."*

*Heriau*

5.16 Er bod y rhai a gafodd eu cyfweld yn tueddu i ganmol model gweithio'r bwrdd, trafodwyd rhai heriau hefyd.

5.17 Cyfeiriodd nifer fach o'r ymatebwyr at ganlyniadau'r ymagwedd egalitaraidd at weithrediad y bwrdd, fel y ffaith bod cyfuno syniadau pawb ar ddechrau'r broses yn heriol a bod cyfarfodydd yn rhedeg yn hwyr yn aml.

*"…Rwy'n credu, ar y cyfan, [fod yna] sgwrs ddwyffordd go iawn a oedd yn agored ac yn gynhwysol. Wrth reswm, roedd hynny'n gallu creu problem, oherwydd os oes gan bawb y grym i ddweud eu dweud, maen nhw'n manteisio ar y cyfle hwnnw, ac ar adegau maen nhw'n siarad am amser maith [...] Roedd rhai o'r cyfarfodydd yn hir…"*

*"Un o'r heriau oedd ceisio sicrhau ein bod yn cael digon o gyfarfodydd i wneud y penderfyniadau, ond doedden ni ddim am orlwytho pobl chwaith."*

5.18 Cyfeiriodd rhai pobl a gafodd eu cyfweld at anghydfodau bach ymysg aelodau'r bwrdd, gan awgrymu iddynt ddeillio o bosibl yn sgil meysydd arbenigedd cyferbyniol. Serch hynny, dywedodd yr unigolion hyn hefyd fod gwrthdaro yn cael ei ddatrys yn gymharol hawdd yn aml drwy ymdeimlad cyffredin o ymrwymiad i'r nodau cyffredinol.

*"…roeddem yn gallu dod â'r safbwyntiau cwbl gyferbyniol hyn at ei gilydd i sefydlu tir cyffredin rhywle yn y canol a chreu cyfres o weithgareddau…"*

*"…Rwy'n credu bod yna ambell dro [...], pan roedden ni'n meddwl bod problem wedi codi, ond fe wnaethon ni fynd o'i chwmpas hi, ac rwy'n meddwl, oherwydd ein bod wedi meithrin cysylltiadau ac ymddiriedaeth dda, [...] bod hynny wedi ein helpu i ddatrys y peth a sicrhau bod popeth yn cael ei wneud yn brydlon…"*

*"Roedd unrhyw heriau a oedd yn dod ar ein traws yn pylu i'r cefndir yn fuan ar ôl i ni ddechrau gweithio gyda'n gilydd."*

5.19 Soniodd un ymatebydd am ba mor gyflym roedd y rhaglen yn cael ei chyflwyno yn y dechrau, sy'n gallu bod yn heriol ar gyfer trefnu digwyddiadau'r celfyddydau gan fod angen 3-4 blynedd o rybudd ar gwmnïau cynhyrchu mawr (e.e. Theatr Genedlaethol Cymru) er mwyn cynllunio ymlaen llaw. Yn ôl yr unigolyn hwn, er nad oedd hon yn her fawr gan fod llawer o ddigwyddiadau'r celfyddydau wedi'u trefnu cyn dechrau rhaglen Cymru'n Cofio, byddai wedi bod yn bosibl cynnal mwy o ddigwyddiadau'r celfyddydol pe bai bwrdd y rhaglen wedi'i sefydlu ychydig yn gynharach.

*"Dydw i ddim yn siŵr a yw'n rhwystr neu'n fagl, neu'n fwy o adlewyrchiad o sut mae'r prosiectau hyn yn tueddu i ddatblygu. Yn ystod y cyfnod cynnar roedd yn teimlo fel bod popeth yn cael ei wneud yn gyflym [...] [e bai'r penderfyniad wedi'i wneud ychydig yn gynharach i hyrwyddo'r coffáu yn unol â'r hyn a ddigwyddodd yn y pen draw, efallai y byddem wedi gallu cynllunio mwy o'r digwyddiadau unigryw hyn, a'u cynnwys yn y rhaglen"*

5.20 Cyfeiriodd un ymatebydd at yr her o grynhoi profiadau a'r hyn a ddysgwyd o ystyried natur tymor byr cyllido yn y trydydd sector. Mae'r ymatebydd yn awgrymu bod angen cwblhau adolygiadau'n gyflym rhag anghofio'r hyn a ddysgwyd.

> *"…gan fod cynifer o'r sefydliadau dan sylw yn elusennau, neu'n sefydliadau trydydd sector, a bod y sector yn seiliedig ar gyllido tymor byr iawn sy'n dibynnu'n fawr ar brosiectau, un o'r heriau yw bod prosiectau ddim ond yn cael eu cyllido tra eu bod ar waith fel arfer [...] Felly, rwy'n credu bod angen ceisio symud yn gymharol gyflym, i gofnodi'r profiadau hynny ac unrhyw ddysgu sy'n deillio o ddigwyddiadau…"*

**Y Strategaeth Gyfathrebu**

5.21 Fel y trafodwyd wrth ystyried swyddogaeth, roedd y bwrdd yn gweithredu fel cefnogwr yn hytrach na chyfarwyddwr prosiectau, ac roedd y rhan fwyaf o'r rhai a gafodd eu cyfweld yn credu bod y strategaeth gyfathrebu yn darparu ymdeimlad cyffredinol o gyfeiriad yn hytrach na chyfres fanwl o gyfarwyddiadau.

> *"… Dydw i ddim yn cofio teimlo ein bod yn gaeth i strategaeth gyfathrebu Cymru'n Cofio neu fel arall os yw hynny'n gwneud synnwyr. Roedd yn teimlo fel bod ymdeimlad cyffredinol o gyfeiriad ar gyfer y rhaglen gyfan, a bod modd i ni lywio hynny yn gymharol hawdd…"*

*Galluogwyr*

5.22 Dywedodd yr ymatebwyr fod diweddariadau cyfathrebu yn cael eu darparu yn rheolaidd, gan gynnwys proses olrhain lle'r oedd cynnydd yn cyfateb i ddangosyddion.

> *"…fe gawsom ddiweddariadau cyfathrebu ym mhob cyfarfod i ystyried llwyddiant y dulliau gwahanol o geisio cyfleu ein pynciau a'n digwyddiadau penodol. Hefyd, gan fod pawb ohonom yn gweithio gyda'n gilydd, roeddem yn ceisio cefnogi digwyddiadau ein gilydd, yn enwedig ar y cyfryngau cymdeithasol ac ati."*

5.23 Yn hytrach na darparu lefelau cyfartal o gymorth cyfathrebu dan gyfarwyddyd ar gyfer pob prosiect, awgrymodd nifer fach o ymatebwyr fod cymorth â ffocws ar gael ar gyfer digwyddiadau a oedd yn dymuno ei gael.

*“Felly, fe benderfynon ni yn gymharol gynnar nad oedden ni’n mynd i dynnu sylw at bob prosiect bach a oedd ar waith ledled Cymru, a chefnogi pob un. Roedd llawer ohonyn nhw yn dda iawn rwy’n siŵr, ond roedden ni am ganolbwyntio ar nifer fach”.*

*“Fodd bynnag, roedd y bwrdd yn rheoli neu’n hyrwyddo neu’n buddsoddi’n uniongyrchol mewn prosiectau amrywiol [...] Rwy’n credu mai rôl y bwrdd ac ochr Llywodraeth Cymru yn benodol oedd rhoi sylw penodol i rai o’r achlysuron cenedlaethol pwysig. […] Roedden nhw’n achlysuron cenedlaethol proffil uchel a phwysig, ac roedd hi’n amlwg bod y rheiny a oedd yn gweithio gyda’r bwrdd a’i gefnogi wedi cychwyn, cynllunio a threfnu’r achlysuron hyn yn fanwl.”*

*Heriau*

5.24 Dywedodd nifer fach o ymatebwyr y byddai’n well ganddynt pe bai’r strategaeth gyfathrebu wedi bod ychydig yn "dynnach" o safbwynt cynnig cymorth.

“…*Ni oedd yn gyfrifol am ein holl waith cyfathrebu ac fe wnaeth pobl eraill gyfrannu hefyd yn hytrach na bod Llywodraeth Cymru yn arwain y broses [Er enghraifft] roedd digwyddiad Passchendaele neu Mametz [...] yn ddigwyddiadau enfawr ond roedden nhw o dan arweiniad y lluoedd arfog yn bennaf, rwy’n meddwl, o’r dechrau i’r diwedd, o ran gweithgaredd [...] Dydw i ddim yn meddwl bod uned gyfathrebu Llywodraeth Cymru wedi chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith hwnnw ac efallai y gallent fod wedi gwneud ychydig mwy yn yr enghreifftiau hynny”*

5.25 Dywedodd nifer fach o’r rhai a gafodd eu cyfweld ei bod yn anodd trefnu digwyddiadau a rhoi gwybodaeth i ffynonellau’r cyfryngau ar yr un pryd.

*“Rwy’n meddwl mai’r unig adeg i mi deimlo bod y gwaith yn heriol oedd pan oedden ni’n cysylltu â’r cyfryngau, ond mae hynny’n gallu bod yn heriol bob amser, [...] mae jest ceisio bwydo’r peiriant hwnnw yn gallu bod yn dipyn o dalcen caled pan rydych chi hefyd yn ceisio rhoi prosiectau ar waith ar lawr gwlad”*

5.26 Yn ogystal, cyfeiriodd rhai ymatebwyr at y ffaith nad oedd y berthynas â ffynonellau’r cyfryngau megis y BBC ac S4C wedi eu ffurfioli, felly roedd tuedd

iddynt fynychu digwyddiadau yn ddirybudd. Roedd un ymatebydd o’r farn mai tanamcangyfrif presenoldeb mewn digwyddiadau oedd rhan o’r rheswm am hyn.

> “*…Roedd gan y cyfryngau yng Nghymru, gan gynnwys S4C a’r BBC, eu rhaglenni gwaith eu hunain, felly doedd dim cysylltiad o reidrwydd rhyngom ni a’r adrannau newyddion gan eu bod yn dilyn eu trywydd eu hunain [...] Un syniad a gawsom yn y dechrau oedd rhoi calendr ar wefannau S4C a’r BBC i ddangos y digwyddiadau amrywiol a oedd wedi’u cynllunio, ond ni ddigwyddodd hynny erioed.”*

*Cyfathrebu Mewnol*

5.27 Dywedodd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr eu bod yn derbyn llawer o wybodaeth, a nododd rhai ohonynt fod y wybodaeth am opsiynau ariannu yn glir iawn.

5.28 Cyfeiriodd un ymatebydd at y rhwystr daearyddol o deithio i gyfarfodydd y bwrdd yng Nghaerdydd neu Ferthyr; gan leihau nifer y cyfarfodydd y gallent eu mynychu.

> *“…wel, roedd y prosesau cyfathrebu cyffredinol yn dda iawn yn fy marn i [...] hefyd, roedd gennym bresenoldeb gwirioneddol gyda’r bwrdd, a byddai [enw] yn ymweld â ni yn uniongyrchol [...] Yr her i mi oedd y rhwystr daearyddol o lwyddo i fynychu [cyfarfodydd y bwrdd]”*

5.29 Cyfeiriodd nifer fach o’r ymatebwyr at y ffaith y byddai cyfarfodydd bwrdd yn cynnwys cyfle i’r holl fynychwyr gyflwyno’r wybodaeth ddiweddaraf am eu syniadau a’u digwyddiadau. Mae’r dyfyniad isod yn dangos pa mor yn anodd oedd hi i un ymatebydd wneud hyn mewn ffordd gryno yn sgil ehangder y digwyddiadau.

> *“… fe gawsom ni gyfle i gyflwyno adroddiadau cynnydd ysgrifenedig sawl gwaith y flwyddyn, [...] ac oherwydd bod gennym lawer o brosiectau gwahanol ar waith o dan [prosiect], roedd yn anodd ceisio dewis pa brosiectau i’w rhannu â phobl eraill a pha agweddau ar y prosiectau hynny yr oedd pobl am wybod amdanyn nhw…”*

**Diffiniadau a Mesurau Llwyddiant**

*Amcanion Cyffredinol ac Amhenodol*

5.30 Roedd dehongliad yr ymatebwyr o nodau ac amcanion y rhaglen yn amrywio ychydig. Gellid casglu o'r cyfweliadau mai un rheswm am hyn oedd y ffaith fod rhai ymatebwyr yn gysylltiedig â sefydlu Cymru'n Cofio o'r cychwyn cyntaf, tra bod eraill wedi ymuno â'r bwrdd yn nes ymlaen ac nad oeddent yn rhan o'r trafodaethau ymlaen llaw. Er hynny, cafwyd consensws cyffredinol ymysg yr ymatebwyr bod y nodau a'r amcanion wedi'u mireinio'n barhaus ar sail adborth o'r flwyddyn flaenorol.

> *"Dydw i ddim yn gwybod llawer am hynny gan nad oeddwn i'n ymwneud â'r broses o'r dechrau, ond i mi, yr agwedd bwysicaf ar y broses y gwnaethom ei dylunio oedd y ffaith ein bod yn mireinio nodau a gwerthoedd yn gwbl naturiol fel rhan o broses barhaus"*

5.31 Ers hynny, mae swyddogion Llywodraeth Cymru a oedd yn gweithio ar y rhaglen ar y pryd wedi egluro bod Cwmpas Gweithgareddau'r Rhaglen wedi'i adolygu a'i fireinio bob blwyddyn, ond bod y nodau a'r amcanion wedi'u pennu'n bendant o'r dechrau'n deg. Rhagdybir bod y dyfyniad uchod yn cyfeirio at weithgarwch y rhaglen.

5.32 Yn ogystal, er na ddywedodd pob un o'r ymatebwyr eu bod yn ymwybodol o amcanion cychwynnol Cymru'n Cofio, cyfeiriodd y rhan fwyaf ohonynt at effeithiau emosiynol, hirdymor ar gof pobl ac at gynnal diddordeb yn y rhyfel a'i effeithiau; yn ystod ac ar ôl y cyfnod coffáu. Mae'r dyfyniad canlynol yn dangos bod y gwaith hwn yn parhau ac nad yw o reidrwydd yn cyd-fynd ag unrhyw set strategol o amcanion.

> *"Y peth pwysicaf oedd ein bod eisiau cofio'r pethau y dylid eu cofio, galluogi pobl i gymryd rhan cymaint â phosibl, o bob cymuned a phob safbwynt, ond ar yr un pryd roedden ni eisiau gadael gwaddol addysgol fel bod pobl ifanc yn gallu deall yr hyn a ddigwyddodd [...] Rwy'n credu ein bod ni i gyd yn ceisio cyflawni'r nod hwnnw o hyd - mae'n waith parhaus [...] Fyddwn i ddim yn dweud bod honno'n broses ffurfiol – roedd ein hamcanion mor gyffredinol fel y gallech chi ddweud bod y prosiectau yn cyd-fynd â'r hyn roedden ni'n ceisio'i gyflawni [...] Doedd y broses ddim mor ffurfiol â'r disgwyl oherwydd ein bod i gyd yn gweithio fel gwirfoddolwyr ac yn cymryd rhan yn wirfoddol…"*

*Anawsterau yn Mesur Llwyddiant*

5.33 Roedd barn yr ymatebwyr am ystyr rhaglen lwyddiannus yn amrywio. Roedd yn amrywio o newid canfyddiadau o'r rhyfel, cyfranogiad y cyhoedd neu sicrhau elfen a oedd yn unigryw i Gymru. Fodd bynnag, pwysleisiodd llawer o ymatebwyr gyfuniad o'r dangosyddion hyn i grynhoi llwyddiant, ac roedd awgrymiadau bod mesurau llwyddiant yn amrywio gan ddibynnu ar y digwyddiad, a'r ffaith eu bod hefyd yn newid wrth i'r rhaglen ddatblygu.

> *"Rwy'n credu bod llwyddiant bob amser yn seiliedig ar [...] weithgarwch a oedd yn adlewyrchu amgylchedd diwylliannol penodol Cymru [...] Wrth i ni symud ymlaen drwy'r rhaglen, rwy'n credu i faterion yn ymwneud ag amrywiaeth ddod yn bwysicach, nad oedd y Rhyfel Byd Cyntaf yn cael ei hystyried yn rhyfel y dyn gwyn yn unig [...] a goblygiadau hynny i'r boblogaeth ehangach [...] roedd iaith yn nod pwysig arall, bod elfennau o'r rhaglen yn ddwyieithog…"*

5.34 Awgrymodd un ymatebydd na thrafodwyd hyn yn fanwl iawn oherwydd bod nifer fawr o aelodau yn perthyn i'r bwrdd.

> *"Fe ges i'r teimlad nad oeddwn yn gwbl glir ynghylch y mesur o lwyddiant..fe wnes i dybio ei fod yn seiliedig ar lefelau cyfranogiad y cyhoedd, ansawdd ymddangosiadol cynnyrch neu weithgaredd ond [...] roedd gofod eitha da wedi'i sefydlu i leisio barn a chasglu adborth, ond mae'n debyg, gan fod cynifer o leisiau o amgylch y bwrdd, y byddai wedi bod yn eitha anodd gwneud hynny'n fanwl iawn"*

5.35 Serch hynny, dywedodd sawl ymatebydd fod yna werthusiad manwl o ddigwyddiadau a phrosiectau yn ystod cyfarfodydd y bwrdd yn ogystal â mecanwaith adborth da i wella a llywio digwyddiadau yn y dyfodol.

> *"Cafodd papurau eu cyflwyno i bob un o gyfarfodydd y bwrdd [...] Fe sylwais fod darlun clir yn dod i'r amlwg ym mhob cyfarfod o'r hyn a oedd wedi'i wneud, beth oedd angen ei wneud o hyd, y cynnydd yn erbyn yr amcanion amrywiol a oedd yn cael eu gosod, ac yn y blaen"*

5.36 Hefyd, cyfeiriodd rhai ymatebwyr at bresenoldeb mewn digwyddiadau, ffigurau gwylio uchel ar gyfer ffynonellau'r cyfryngau fel y BBC ac S4C, a mynediad at wefan Cymru'n Cofio fel arwydd o lwyddiant mesuradwy.

*“Yr argraff ges i, o’r straeon a glywais a’r naratif, yn hytrach na’r ystadegau, oedd bod yr hyn a wnaethon ni yn hynod effeithiol. Pan edrychwch chi ar [digwyddiad], rwy’n cofio rhywun yn dweud bod y ffigurau gwylio ar S4C yn eithriadol o uchel, a doedden ni ddim yn disgwyl hynny o gwbl. Mae’r ystadegau hynny’n dangos bod y gwaith cyfathrebu yn effeithiol iawn”*

5.37 Awgrymodd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr ei bod yn anodd mesur llwyddiant yn llawn oherwydd natur y rhaglen. Roedd nifer sylweddol o ymatebwyr o’r farn nad oedd data elfennol yn cyfleu eu diffiniad o lwyddiant. Er enghraifft, awgrymodd un ymatebydd mai’r digwyddiadau ar raddfa fach yn aml a gafodd yr effaith fwyaf o safbwynt dyfnder yr ymgysylltu ac ansawdd, ond ei bod yn anodd trosi hynny ar ffurf data.

*“I ni, roedd y cyfan yn ymwneud â’r materion hynny a oedd ychydig yn lletchwith i’w mesur, a oedd yn ymwneud â phroffil, ag effaith a chofio, o safbwynt creu rhai digwyddiadau bythgofiadwy a fyddai, nid yn unig yn creu argraff ar y pryd, ond a fyddai’n aros yng nghof ac ymwybyddiaeth pobl gobeithio ac yn bethau y bydden nhw’n ailymweld â nhw, ac er mor anodd mesur hynny’n ymarferol [...] Roedd yr achlysuron hyn yn rhai hynod emosiynol a chofiadwy.”*

**Amrywiaeth a Chynhwysiant**

5.38 Er bod consensws cyffredinol ymysg y rhai a gafodd eu cyfweld bod amrywiaeth a chynwysoldeb grwpiau â nodweddion gwarchodedig yn cael eu trafod ym mhob cyfarfod bwrdd, roedd gan ymatebwyr safbwyntiau gwahanol ar y graddau y teimlent fod yr amcan hwn wedi’i gyflawni.

*Galluogwyr*

5.39 Awgrymodd rhai ymatebwyr fod amrywiaeth a chynwysoldeb wedi’u sicrhau gan gyfeirio at nifer o enghreifftiau: cynnwys pobl o’r Fforwm Ffydd a Race Council Cymru fel aelodau’r bwrdd er mwyn cael eu mewnbwn; prosiectau/digwyddiadau penodol yn canolbwyntio ar grŵp penodol (e.e. ffydd, cymunedau ethnig lleiafrifol, menywod); a chyllid bwrdd ar gyfer grwpiau cymunedol. Mynegodd rhai ymatebwyr nod y bwrdd o newid y canfyddiad bod coffáu’r Rhyfel Byd Cyntaf a rhyfeloedd eraill yn berthnasol i ddynion gwyn, dosbarth canol drwy weithio gyda’r sefydliadau a’r arweinwyr cymunedol hyn.

*"…yn gyffredinol, mae'r [digwyddiadau] hyn yn cael eu hystyried yn ddigwyddiadau i bobl sy'n wyn, yn ddosbarth canol ac yn ganol oed, wyddochi chi, ond rhaid i ni eu gwneud yn berthnasol i gymunedau amrywiol. Felly, rwy'n credu ein bod wedi dysgu llawer hefyd drwy weithio gyda grwpiau gwahanol, ond mae'r grwpiau hyn wedi dysgu llawer hefyd drwy weithio gyda ni. Rydyn ni'n rhannu'r un nodau mewn gwirionedd, mae'n ymwneud â sut rydyn ni'n dod â'r nodau hynny at ei gilydd i greu pecyn coffa gwirioneddol effeithiol".*

5.40 Mae ymatebwyr yn awgrymu bod y nod hwn wedi'i gyflawni drwy sicrhau bod digwyddiadau'n berthnasol i grwpiau â nodweddion gwarchodedig, trwy gyflwyno hanesion ymdrechion rhyfel eu grwpiau er enghraifft.

*"Rydyn ni'n sicrhau bob amser ein bod yn cynnwys holl aelodau'r Fforwm Cymunedau Ffydd, felly roedd Mwslimiaid, Iddewon a Hindŵiaid wedi cael gwahoddiad. Rwy'n credu ein bod yn deg iawn o ran rhywedd hefyd [...] ond rhaid rhoi clod mawr i'r Bwrdd am sicrhau ein bod wedi cofio Terfysgoedd Hil Caerdydd gan gynnal gwasanaeth coffa i gofio'r digwyddiad. I mi, roedd y noson honno'n gyfle gwych i wrando ar drigolion Butetown yn mynegi eu hymdeimlad o Gymreictod".*

*Heriau*

5.41 Serch hynny, er bod yna ymdrech ymwybodol i gynnwys grwpiau â nodweddion gwarchodedig ym mhob elfen o Cymru'n Cofio, roedd nifer sylweddol o ymatebwyr yn pryderu nad oedd hyn o reidrwydd yn golygu bod pob cymuned yn *teimlo* ei bod wedi'i chynnwys neu eisiau cymryd rhan.

*"Roedd yn dipyn o her ar adegau i sicrhau bod cymunedau'n teimlo eu bod wedi'u cynnwys, oherwydd rwy'n credu bod rhai ohonynt yn teimlo nad ydynt yn cael eu cynnwys fel y dylen nhw fod. Mae'r elfen hon wedi cael ei hadlewyrchu'n fwy diweddar gan y mudiad Mae Bywydau Du o Bwys, a'r hyn sydd wedi digwydd gyda Covid. Rwy'n credu bod rhaid i ni fod yn onest a chyfaddef nad ydym wedi bod mor llwyddiannus wrth gyflawni hynny"*

5.42 Yn ogystal, mae lleiafrif o'r rhai a gafodd eu cyfweld yn awgrymu y gallai'r broses o ymgysylltu â chymunedau ethnig lleiafrifol fod wedi'i thargedu'n gynharach yn y rhaglen, gan roi'r enghraifft o ymgysylltu â Race Council Cymru o'r cychwyn cyntaf.

> *"Rwy'n meddwl bod cynnwys strwythurau ymbarél fel Race Council Cymru, er enghraifft, mewn trafodaethau ar lefel bwrdd yn ddefnyddiol iawn [...] Mae'n debyg y byddwn yn dweud y byddai'n dda cynnwys y pethau hynny o'r cychwyn cyntaf. Felly, yn hytrach na dod â grwpiau i mewn wrth i'r cyfle godi, mae'n well mynd ati i'w cynnwys nhw yn y broses o'r cychwyn, i nodi'r sefydliadau neu'r rhwydweithiau a all gyflwyno'r unigolion hynny'n hawdd, a'u sefydlu nhw mewn unrhyw strwythur o'r cychwyn cyntaf…"*

**Argymhellion ar gyfer Rhaglenni Coffa yn y Dyfodol**

*Gwaddol*

5.43 Cyfeiriodd y rhan fwyaf o'r rhai a gafodd eu cyfweld at yr anhawster o sicrhau bod gan Cymru'n Cofio waddol hirhoedlog. Mae ymatebwyr yn cyfeirio at elfen unigryw a byrhoedlog dathliadau'r canmlwyddiant fel her ar gyfer cynnal ymgysylltiad. Er gwaethaf hyn, mae nifer fach o'r ymatebwyr yn nodi bod y gwaith o grynhoi'r hyn a ddysgwyd a'r profiadau yn elfen barhaus o'r rhaglen.

> *"…Roedd y gwaddol yn bwysig iawn hefyd [...] Rwy'n meddwl bod y gwaddol wedi'i drafod ym mhob un o'r cyfarfodydd, felly yn hytrach na dweud 'rydyn ni wedi cyrraedd 2018, mae'n 100 mlynedd ers y Rhyfel Byd Cyntaf, anghofiwch amdano, symudwch ymlaen' rydyn ni'n dweud 'sut gallwn ni sicrhau bod gwersi'r rhyfel yn cael eu dysgu a bod yna symud ymlaen?' Rwy'n gwybod bod yna lawer o drafodaethau am addysg, am lyfrgelloedd yn cadw'r cofnodion hynny ac am gadw'r eitemau sydd wedi'u creu fel rhan o'r broses o goffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf..."*

*Awgrymiadau ar gyfer gwaith pellach gan y rhai a gafodd eu cyfweld*

5.44 Yn dilyn hyn, roedd sawl ymatebydd yn awyddus i sicrhau rhagor o bwyslais ar ddigido ar gyfer digwyddiadau coffa yn y dyfodol (fel recordio digwyddiadau), fel bod "cronfa o adnoddau" ar gael yn y dyfodol ac nad yw gwybodaeth yn mynd ar goll.

> *"…ond un o'r pethau a sylweddolwyd gennym wrth edrych ar yr holl brosiectau oedd y ffaith fod llawer iawn o fentrau ar waith a llawer o wybodaeth ddigidol*

*ar gael, felly byddai'n bwysig iawn i unrhyw brosiect yn y dyfodol gynnwys strategaeth ddigidol o'r dechrau'n deg. Rwy'n credu mai'r pryder mwyaf yw ei bod hi'n bosib, ymhen 10 mlynedd, y bydd 90-95% o'r gwaith a wnaed dros y cyfnod coffáu wedi'i golli".*

5.45 Awgrymodd rhai ymatebwyr y byddai fideo-gynadledda[6] ar raddfa fawr a mwy o is-grwpiau ar gyfer cyfarfodydd bwrdd yn sicrhau bod mwy o bobl yn gallu cymryd rhan ac yn dileu rhwystrau daearyddol.

> *"…yr hyn sy'n gweithio'n dda iawn yw sicrhau bod amrywiaeth o sefydliadau a chymunedau gwahanol yn cael eu cynrychioli. Rwy'n meddwl bod hynny'n gwbl allweddol yn fuan iawn ar rwy'n teimlo y byddai pobl yn ymrwymo. Wrth symud ymlaen, rwy'n credu bod model o'r fath yn un gwerth chweil, oherwydd weithiau, rwy'n teimlo ei bod hi'n anodd am fod yna gymaint o bobl yno [...] a dyna pryd yr oedd y gweithgorau'n ddefnyddiol iawn, oherwydd weithiau, os nad oedd modd i rywrai fod yn aelodau o brif fwrdd y rhaglen, gallech gynnig rôl iddyn nhw ar weithgor, a bydden nhw'n teimlo bod rhywun yn gwrando arnyn nhw a bod ganddyn nhw lais".*

5.46 Awgrymodd nifer fach o ymatebwyr fod angen rhoi mwy o bwyslais ar rôl cymunedau ethnig lleiafrifol a gwasanaethau eraill nad ydynt yn rhai milwrol.

> *"Rwy'n credu bod lle i ni wella, yn enwedig o ganlyniad i Covid, ac wrth gynnwys mwy o leiafrifoedd na'r hyn sydd wedi digwydd hyd yn hyn".*

5.47 Yn gyffredinol, awgrymodd yr ymatebwyr fod model gweithio Cymru'n Cofio yn sylfaen ar gyfer datblygu rhaglenni coffáu yn y dyfodol.

> *"…Heb os, mae'n un o'r darnau o waith rwy'n fwyaf balch ohono yn ystod fy ngyrfa. Roedd yn rhywbeth hyfryd iawn i'w wneud ac rwy'n teimlo ei fod yn bwysig iawn…"*

5.48 Mae'r adran olaf yn amlinellu casgliadau cyffredinol y gwerthusiad ac yn darparu rhai argymhellion yn seiliedig ar y canfyddiadau.

---

[6] Cafodd y gwaith ymchwil hwn ei wneud cyn y pandemig Covid 19, a chyn cyflwyno TGCh sy'n galluogi gweithio o bell. Bydd meddalwedd mwy soffistigedig yn cael ei ddefnyddio mewn rhaglenni coffáu yn y dyfodol er mwyn cysylltu aelodau'r bwrdd sy'n byw mewn lleoliadau gwahanol.

## 6. Casgliadau ac Argymhellion

6.1 Mae’r adran hon yn crynhoi prif ganfyddiadau’r gwerthusiad ac yn gwneud argymhellion i’w datblygu ar gyfer rhaglen goffáu yn y dyfodol, ar lefel prosiect a rhaglen yn benodol.

*Arolwg o brosiectau cymunedol*

6.2 Datgelodd yr arolwg nad oedd y rhan fwyaf o’r 16 prosiect a ymatebodd i’r arolwg wedi gwneud cais am gymorth gan y rhaglen i gyflwyno eu prosiect, a’r rheswm mwyaf cyffredin oedd nad oeddent yn ymwybodol bod cymorth ar gael. Mae’n bwysig cofio yma bod brandio Cymru’n Cofio yn cael ei ddefnyddio ar gyfer prosiectau a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru a’r rhai a ariannwyd gan sefydliadau partner yn unig. Darparodd yr arolwg wybodaeth am y mathau o gymorth y gofynnwyd amdano amlaf, gan gynnwys cymorth gyda’r cyfryngau cymdeithasol a chyhoeddiadau print. Felly, gallai fod yn ddefnyddiol i raglenni yn y dyfodol roi mwy o sylw i gymorth o’r fath er mwyn ateb y galw.

6.3 Roedd y rhan fwyaf o brosiectau cymunedol yn ymwybodol o frandio’r rhaglen a’r ffaith mai Llywodraeth Cymru a oedd yn gyfrifol am y brandio. Dywedodd ychydig dros hanner y prosiectau a arolygwyd eu bod wedi defnyddio’r brandio. Roedd ymwybyddiaeth o Fwrdd y Rhaglen a’i rôl yn uchel hefyd, a nododd ymatebwyr eu bod wedi cael profiadau cadarnhaol o safbwynt ansawdd ac amlder yr ymgysylltu, gan gyfeirio at ddiddordeb yn y prosiectau, cymorth i ddatrys problemau a pharchu ymreolaeth prosiectau.

6.4 Nododd deg o’r 16 prosiect eu bod wedi casglu data monitro, gyda dim ond un prosiect wedi casglu gwybodaeth ddemograffig am ymwelwyr a chyfranogwyr. Nifer y bobl a oedd wedi mynychu digwyddiad neu fenter ac adborth gan ymwelwyr oedd y data a gasglwyd amlaf. Roedd prosiectau o’r farn bod y data hwn yn ddefnyddiol ar gyfer llywio gwelliannau i’r broses o gyflwyno prosiectau, ond ei fod yn llai defnyddiol fel modd o ddangos effaith. Diffyg adnoddau oedd y rheswm mwyaf cyffredin a nodwyd dros beidio â chasglu data monitro. Mae’r ymatebion hyn yn dangos mai un maes cymorth ar gyfer byrddau rhaglenni yn y dyfodol fyddai cynorthwyo prosiectau i sefydlu systemau monitro cymesur a fyddai’n gallu darparu gwybodaeth fwy cywir am effaith a gwaddol y rhaglen.

*Safbwyntiau Bwrdd y Rhaglen*

6.5 Dywedodd aelodau bwrdd y rhaglen fod y Bwrdd yn alluogwr o safbwynt creu cyfleoedd i gydweithio â sefydliadau perthnasol er mwyn cyflawni nodau'r rhaglen. Hefyd, nododd yr aelodau fod Llywodraeth Cymru wedi darparu mwy o gapasiti i ddatblygu prosiectau a bod cyfranogiad y Prif Weinidog wedi codi proffil y rhaglen goffa. Nodwyd bod awyrgylch cyfarfodydd y Bwrdd yn gefnogol a bod modd meithrin perthynas adeiladol a rhannu safbwyntiau'n rhwydd ynddynt. Nodwyd yn aml fod y Bwrdd yn cynghori prosiectau ond hefyd yn rhoi rhyddid i'r prosiectau hynny weithredu yn ôl eu dymuniad.

6.6 Er bod rhoi rhwydd hynt i holl aelodau'r Bwrdd fynegi eu barn yn cael ei ystyried yn nodwedd gadarnhaol, roedd hefyd yn golygu bod y broses o wneud penderfyniadau yn cymryd mwy o amser weithiau. Roedd heriau eraill a wynebai'r Bwrdd yn cynnwys diffyg cysondeb o ran cyflymder gwneud penderfyniadau, gan greu heriau o safbwynt cyflawni i brosiectau weithiau. Teimlwyd y gallai penderfyniadau ar gyfathrebu a hyrwyddo digwyddiadau a phrosiectau fod wedi'u gwneud yn gynharach er mwyn eu paratoi'n well.

6.7 Trafodwyd y strategaeth gyfathrebu mewn goleuni cadarnhaol ar y cyfan, ond nododd rhai aelodau o'r Bwrdd y byddai'n well ganddynt pe bai'r strategaeth wedi mynegi'n fwy eglur y cymorth posibl a oedd ar gael ar gyfer prosiectau. Hefyd, dywedodd aelodau'r Bwrdd y byddai wedi bod yn ddefnyddiol cael cytundebau ffurfiol gyda darlledwyr a'r wasg ynglŷn â natur y sylw a roddir i ddigwyddiadau coffa mawr, ac y byddai dull clir o ymdrin â hyn yn ddefnyddiol mewn strategaethau fel hyn yn y dyfodol. Nodwyd bod prosesau cyfathrebu mewnol yn dda iawn, er bod rhai aelodau'r Bwrdd yn teimlo bod yr ymrwymiadau teithio i fynychu cyfarfodydd yng Nghaerdydd yn feichus weithiau. Byddai cynnal y cyfarfodydd mewn lleoliadau gwahanol, neu ddarparu TGCh i wella ansawdd cyfarfodydd o bell, yn fuddiol i'r rhai sydd wedi'u lleoli y tu hwnt i Dde Cymru. Gellid defnyddio'r gwelliant i'r cyfleusterau hyn o ganlyniad i'r pandemig yn effeithiol ar gyfer byrddau rhaglenni yn y dyfodol.

6.8 O ran mesur effaith y rhaglen yn gyffredinol, datgelodd y cyfweliadau fod gwerthusiadau ar lefel prosiect wedi darparu adborth da ar sut i wella digwyddiadau yn y dyfodol. Fodd bynnag, dywedodd llawer o'r ymatebwyr fod dehongliadau o'r hyn y gallai'r rhaglen ei gyflawni yn amrywio rhwng aelodau'r Bwrdd a bod natur y

rhaglen yn golygu ei bod yn anodd mesur llwyddiant. Cynigir y gall ymgorffori dulliau gwerthuso yn y rhaglen o’r dechrau’n deg helpu’r rhai sy’n gyfrifol am ei chyflwyno i benderfynu sut i fesur effaith, yn enwedig os yw nodau ac amcanion rhaglen yn fwy amwys.

6.9 O safbwynt gwella amrywiaeth a chynhwysiant, yn enwedig rôl grwpiau ar y cyrion yn benodol yn y rhyfel, ac wrth ymgysylltu â’r rhai â nodweddion gwarchodedig yn y digwyddiadau coffa, dywedodd aelodau’r Bwrdd eu bod yn teimlo bod prosiectau’n ystyried y materion hyn yng nghyd-destun eu mentrau. Fodd bynnag, fel mae’r arolwg yn ei ddangos, ychydig o ddata sydd ar gael i ategu ymgysylltiad llwyddiannus â grwpiau ar y cyrion, gan mai ychydig iawn o ddata demograffig a gasglwyd yn ymwneud â phwy oedd yn cymryd rhan. Roedd sefydliadau ymbarél perthnasol yn cymryd rhan yn y rhaglen hefyd, ond roedd aelodau’r Bwrdd yn teimlo y gellid bod wedi gwneud hyn mewn ffordd fwy systematig o ddechrau’r rhaglen. Hefyd, roedd yn anodd pennu a oedd y rhai â nodweddion gwarchodedig yn teimlo eu bod wedi’u cynnwys. Mae’r canfyddiadau hyn yn awgrymu y byddai rhagor o dystiolaeth am effaith gwella cynwysoldeb yn fanteisiol.

*Argaeledd ac ansawdd data*

6.10 Dangosodd yr adolygiad o ddogfennau’r rhaglen fod y rhan fwyaf o fentrau, ar lefel prosiect, wedi cyflwyno achos busnes a oedd yn amlinellu amcanion y prosiect, sut y byddai’n cael ei ddarparu a’r adnoddau gofynnol, yn ogystal ag amserlenni a dulliau monitro. Roedd achosion busnes yn amrywio’n sylweddol o ran faint o fanylion a gafodd eu cynnwys fel rhan o’r dull monitro, ac o ganlyniad roedd yn fwy anodd penderfynu pa ddata a fyddai’n cael ei gasglu i ddangos effaith ac ym mha gyfnodau o’r prosiect y byddai hyn yn cael ei wneud. Hefyd, roedd yn ofynnol i brosiectau gwblhau adroddiad diwedd prosiect yn nodi’r data a gasglwyd fel rhan o’r dull monitro a dangos effaith y prosiect. Er bod yr adroddiadau hyn wedi cael eu cyflwyno a’u bod yn cynnwys data defnyddiol, roedd yn anodd cysylltu’r data a gasglwyd â’r ymrwymiadau monitro a gyflwynwyd yn yr achos busnes. Roedd diffyg data llinell sylfaen i gymharu’r data ar ôl y prosiect yn ei gwneud yn anodd nodi’r effaith hefyd.

6.11 Yn y rhan fwyaf o achosion, byddai achosion busnes wedi elwa ar gynllun monitro a gwerthuso manylach, gan gynnwys cynlluniau ar gyfer casglu data llinell sylfaen.

Hefyd, byddai hyn wedi darparu dull clir o gasglu a dehongli data i lywio amcanion cyffredinol y rhaglen. Bydd yr argymhellion yn cynnwys amlinelliad cliriach o sut y gellir gwneud hyn.

*6.12* Felly, mae'r argymhellion canlynol yn cael eu gwneud ar gyfer rhaglenni coffa yn y dyfodol, gan ddechrau ar lefel rhaglen.

1. **Argymhellir y dylai rhaglenni yn y dyfodol ymgysylltu â chydweithwyr yn y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (KAS) cyn gynted â phosibl i greu dull gwerthuso o ymdrin â rhaglenni coffa.** Argymhellir y gweithgareddau canlynol:
    a. Creu cynllun monitro a gwerthuso cyffredinol ar gyfer y rhaglen, gan gynnwys dull o gynorthwyo prosiectau a ariennir i fonitro a gwerthuso eu gweithgarwch a phenderfynu sut mae data prosiect yn llywio asesiad cyffredinol o effaith. Byddai hyn yn hwyluso cysondeb wrth fonitro data'r holl brosiectau a gefnogir, gan gynnwys y gallu i ddeall nodweddion demograffig y rhai sy'n ymgysylltu â phrosiectau. Hefyd, byddai hyn yn rhoi arweiniad i aelodau bwrdd y rhaglen ar sut mae nodau ac amcanion y prosiect yn cael eu diffinio a'u mesur.
    b. Cynnal gweithdy damcaniaeth newid ar ddechrau'r rhaglen i benderfynu rhesymeg yr ymyrraeth, a deall pa ddata sydd fwyaf priodol a hyfyw i'w gasglu ar lefel prosiect a rhaglen. Bydd hyn yn arwain at greu model rhesymeg y gellir ei ailystyried a'i addasu o bryd i'w gilydd drwy gydol y prosiect gan fod cysyniadau o newid effaith a data sydd ar gael i fesur effaith ar gael.
    c. Ystyried creu capasiti ychwanegol o fewn tîm y rhaglen i reoli prosesau monitro a gwerthuso data drwy gydol y rhaglen goffáu.
    d. Sicrhau cyllid ar gyfer gwerthusiad llawn ar ddechrau'r rhaglen, fel bod modd neilltuo adnoddau i gwmpasu argaeledd data yn llawn a chasglu a dadansoddi'r data perthnasol.

2. **Byddai rhaglenni coffa yn y dyfodol yn elwa ar ymgysylltu cynharach a chydgysylltiedig â chyrff cynrychiolíadol ar gyfer grwpiau gwarchodedig** er mwyn deall beth sy'n effeithiol o ran ymgysylltu â chymunedau ethnig lleiafrifol, er enghraifft. Byddai hyn yn caniatáu dull mwy pwrpasol o ymgysylltu â grwpiau

gwarchodedig a deall a yw prosiectau a ariennir wedi cyrraedd y gynulleidfa arfaethedig.

3. **Mae angen i'r gwaith cynllunio gwerthusiad roi mwy o ystyriaeth i ddeall ystyr y term 'gwaddol' a sut y gellir dangos effaith wrth greu gwaddol.** Gall y broses o ddeall sut i gyflawni hyn fod yn ddefnyddiol i ddeall manteision mwy hirdymor y rhaglen hefyd. Gellir cynnwys hyn yn y dull damcaniaeth newid.

6.13 Ar gyfer prosiectau a ariennir, gwneir yr argymhellion canlynol:

4. **Dylai rhaglenni coffa ddarparu cymorth i brosiectau ddatblygu cynllun gwerthuso sy'n gysylltiedig â'r gwerthusiad ar lefel rhaglen**. Trwy ddatblygu cynllun o'r fath ar ddechrau'r prosiect fel rhan o'r achos busnes, byddai modd hwyluso gwaith casglu gwybodaeth fonitro llinell sylfaen a chanol tymor sy'n gallu dangos tystiolaeth glir o effaith ar ddiwedd y prosiect.

5. **Dylid cydgysylltu gwerthusiad o brosiectau a ariennir ar lefel rhaglen** er mwyn sicrhau bod data monitro sy'n cael ei gasglu gan brosiectau yn cael ei ystyried o fewn data monitro'r rhaglen gyfan. Gellid cyflawni hyn trwy ddefnyddio adnoddau ychwanegol i reoli gwaith monitro a gwerthuso fel y nodir yn argymhelliad 1 (d). Byddai hyn yn sicrhau bod modd cysylltu amcanion a chanlyniadau'r rhaglen yn fwy eglur ag amcanion a chanlyniadau ar lefel prosiect.

6. **Pryd bynnag y bo modd, dylid casglu data demograffig er mwyn deall pwy sy'n ymgysylltu ag allbynnau prosiectau cymunedol a ariennir.** Nid oedd y rhan fwyaf o'r prosiectau a arolygwyd wedi casglu'r data hwn, gan arwain at fwlch o ran deall (i) i ba raddau roedd pobl â nodweddion gwarchodedig yn cymryd rhan mewn gweithgarwch coffa a (ii) i ba raddau roedd grwpiau ar y cyrion yn teimlo eu bod yn cael eu cynrychioli yn y gweithgarwch coffa. Byddai'r data hwn yn helpu i benderfynu a oedd yr amcan o ehangu cynrychiolaeth a chyfranogiad mewn gweithgarwch coffáu wedi'i gyflawni.

7. **Er mwyn sicrhau bod y data monitro a gyflwynir o'r safon uchaf, dylai'r broses o gyflwyno data llinell sylfaen, canol tymor a diwedd prosiect fod yn orfodol, a dylai cymorth fod ar gael fel bod prosiectau yn gallu cyflwyno'r wybodaeth hon.** Er bod y rhan fwyaf o brosiectau wedi cyflwyno data ar ddiwedd y prosiect, nid oedd pob un wedi gwneud hynny, sy'n golygu bod cyfle pwysig i ddeall

effaith wedi'i golli. Byddai sicrhau bod cyflwyno data i'w ddefnyddio fel rhan o werthusiad ar lefel rhaglen yn ofyniad gorfodol, a darparu cymorth ar gyfer cyflwyno'r data hwn, yn cynyddu dibynadwyedd data gan brosiectau ac yn dyrchafu pwysigrwydd gwerthusiad ar gyfer prosiectau a ariennir.

**Adran gyfeiriadau**

Llywodraeth Cymru (2017) Ffyniant i Bawb: y Strategaeth i Gymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

**Atodiad A**

**<u>Cymru'n Cofio: Arolwg o randdeiliaid grwpiau cymunedol</u>**

Er mwyn llywio'r gwerthusiad o raglen Cymru'n Cofio, mae gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb mewn casglu safbwyntiau ar eich profiad o'r prosiectau a/neu'r digwyddiadau a gyflwynwyd gennych. Mae eich cyfranogiad yn gwbl wirfoddol ond bydd yn ffurfio rhan o'r gwerthusiad o'r rhaglen, yn darparu gwersi a ddysgwyd ac yn helpu i lywio'r gwaith o gyflwyno rhaglenni coffáu yn y dyfodol.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr arolwg, siaradwch ag aelod o dîm Llywodraeth Cymru. Ar gyfer ymholiadau yn y Gymraeg, cysylltwch â Nerys Owens (nerys.owens@llyw.cymru). Ar gyfer ymholiadau yn y Saesneg, cysylltwch â Charlie Heywood-Heath (Charlie.heywoodheath@llyw.cymru). Bydd y wybodaeth a ddarperir gennych fel rhan o'r arolwg hwn yn cael ei chofnodi a'i chadw yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). I gael rhagor o wybodaeth, gweler yr hysbysiad preifatrwydd a ddarparwyd gyda'r arolwg hwn.

Rhowch y manylion canlynol i'n helpu i ddeall eich cyfranogiad yn y rhaglen Cymru'n Cofio:

Enw:

Sefydliad:

Enw'r prosiect / digwyddiad:

Hyd y prosiect / digwyddiad:

1. A wnaethoch chi ofyn am gymorth gan Cymru'n Cofio i helpu i gyflwyno eich prosiect / digwyddiad?
    - Do
    - Naddo
    - Ddim yn gwybod

2. Pa gymorth a gawsoch chi ? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)
    - Digwyddiadau Ymgynghori
    - Gwybodaeth ar wefan Cymru'n Cofio
    - Cyfryngau cymdeithasol Cymru'n Cofio
    - Diwrnodau Partneriaeth
    - Gweithgor Llywodraeth Cymru

- Y Rhaglen Fframwaith ar gyfer Coffáu yng Nghymru
- Cyhoeddiadau Cymru'n Cofio
- Cyngor uniongyrchol
- Ddim yn gwybod
- Arall (rhowch fanylion)

3. Pam na wnaethoch chi wneud cais am gymorth?
   - Nid oeddwn/nid oeddem yn ymwybodol o unrhyw gymorth ychwanegol
   - Nid oedd angen cymorth arnaf/arnom
   - Nid oeddwn/nid oeddem yn deall sut i gael gafael ar gymorth
   - Roedd y broses o wneud cais am gymorth a'i dderbyn yn rhy gymhleth
   - Arall (rhowch fanylion)

4. Oeddech chi'n ymwybodol bod yna frandio penodol ar gyfer Cymru'n Cofio?
   - Oeddwn
   - Nac oeddwn

5. Oeddech chi'n ymwybodol mai Llywodraeth Cymru oedd yn darparu brandio i'w ddefnyddio gan brosiectau Cymru'n Cofio?
   - Oeddwn
   - Nac oeddwn

6. A wnaethoch chi ddefnyddio'r brandio ar unrhyw ddeunydd a gyhoeddwyd fel rhan o'ch prosiect / digwyddiad?
   - Do
   - Naddo

7. Ble wnaethoch chi ddefnyddio'r brandio? (dewiswch bob un sy'n berthnasol)
   - Ar wefan
   - Ar y cyfryngau cymdeithasol
   - Mewn digwyddiadau
   - Cyhoeddiadau print gan gynnwys taflenni a deunydd hyrwyddo arall

- Adroddiadau cyhoeddedig
- Arall, rhowch fanylion

8. A oeddech chi’n ymwybodol bod bwrdd rhaglen yn goruchwylio’r coffáu?
    - Oeddwn
    - Nac oeddwn

9. A gawsoch chi unrhyw gysylltiad â bwrdd y rhaglen / aelodau bwrdd y rhaglen wrth gyflwyno eich prosiect / digwyddiad?
    - Do
    - Naddo
    - Ddim yn gwybod

10. Pa fath o gyswllt oedd gennych chi gyda bwrdd y rhaglen? [ymateb agored]

11. Sut y byddech chi'n disgrifio'r agweddau canlynol ar ymgysylltu â Rhaglen Cymru'n Cofio? Nodwch ar y raddfa ganlynol:

| Datganiad | 1 (gwael) | 2 | 3 (y naill na'r llall) | 4 | 5 (da iawn) |
|---|---|---|---|---|---|
| I ba raddau y gallech wneud penderfyniadau ar brosiectau | | | | | |
| Amlder cyfathrebu | | | | | |
| Ansawdd y cyfathrebu | | | | | |
| Cymorth i ddatrys problemau | | | | | |
| I ba raddau yr ystyriwyd eich barn | | | | | |

12. Pa gymorth ychwanegol, os o gwbl, a fyddai wedi bod yn ddefnyddiol i'ch prosiect / digwyddiad, naill ai gan fwrdd y rhaglen neu gan ffynhonnell arall? Rhowch fanylion isod. [ymateb agored]

13. A wnaethoch chi gasglu unrhyw ddata neu wybodaeth fonitro am gyfranogwyr a fynychodd eich prosiect / digwyddiad?
    - Do
    - Naddo
    - Ddim yn gwybod

14. Pa ddata wnaethoch chi ei gasglu? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)
    - Nifer y cyfranogwyr / mynychwyr

- Data demograffig cyfranogwyr (e.e. oedran, rhywedd, ethnigrwydd neu wybodaeth bersonol arall)
- Rhesymau dros gymryd rhan yn y prosiect / digwyddiad
- Adborth ar y prosiect / digwyddiad
- Arall, nodwch [ymateb testun agored]

15. Sut ydych chi'n bwriadu defnyddio / sut ydych chi wedi defnyddio'r data / gwybodaeth fonitro a gasglwyd gennych? [ymateb agored]

16. Beth oedd y rheswm dros ddewis peidio â chasglu data neu wybodaeth fonitro? [dewiswch bob un sy'n berthnasol]
    - Nid oeddwn/nid oeddem yn gwybod sut i fynd ati i wneud hyn
    - Nid oeddwn/nid oeddem yn teimlo bod casglu data neu wybodaeth fonitro yn briodol nac yn ddefnyddiol ar gyfer ein prosiect
    - Nid oedd gennyf/nid oedd gennym yr adnoddau i gasglu data / gwybodaeth fonitro
    - Arall, rhowch fanylion

Diolch yn fawr am eich cyfranogiad. Os hoffech dderbyn gwybodaeth am gyhoeddi'r gwerthusiad, nodwch eich cyfeiriad e-bost.
E-bost:

**Atodiad B**

Amserlen Cyfweliadau – Bwrdd y Rhaglen

**Cyflwyniad – Pwyntiau i'w cynnwys**

1. Helo, fy enw i yw ... ac rwy'n un o ymchwilwyr Rhaglen Ymchwil Fewnol Llywodraeth Cymru.

2. Mae'r Rhaglen Ymchwil Fewnol yn uned ymchwil a gwerthuso fewnol ac rydym yn cynnal y gwerthusiad hwn ar ran yr Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd.

3. Byddwn yn archwilio rôl aelodau bwrdd rhaglen Cymru'n Cofio ac yn gofyn i chi fyfyrio ar eich profiad fel aelod.

4. Bydd y gwaith hwn yn rhan o'r broses casglu data ar gyfer y gwerthusiad, a bydd canfyddiadau'r gwerthusiad yn llywio dull yr Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd o ymdrin â rhaglenni coffáu yn y dyfodol.

5. Bydd y cyfweliad yn para awr yn fras ac rydym yn recordio'r sgwrs hon ar Teams/Dictaffon. Caiff y sgwrs ei thrawsgrifio a bydd y data'n cael ei gadw fel y nodir yn yr hysbysiad preifatrwydd sydd ynghlwm wrth eich gwahoddiad gwreiddiol.

6. Oes gennych unrhyw gwestiynau cyn i ni ddechrau?

Cysylltiad cychwynnol â'r bwrdd

1. Allwch chi ddweud ychydig wrthyf am eich rôl yn [sefydliad]?

2. Sut ddaethoch chi i fod yn aelod / cadeirydd bwrdd y rhaglen ar gyfer Cymru'n Cofio?

   *Am faint fuoch chi'n aelod o'r Bwrdd?*
   *Yn ystod pa gyfnod o'r rhaglen oeddech chi'n aelod?*

3. Beth oedd eich dealltwriaeth o'ch rôl pan gawsoch eich penodi'n aelod o fwrdd y rhaglen?

   *A gafodd eich rôl ei hamlinellu neu ei hesbonio'n glir?*
   *A oedd gennych ddealltwriaeth glir o rôl y bwrdd ar ddechrau eich aelodaeth? (drwy gylch gorchwyl neu fel arall)*

4. Beth oedd eich dyletswyddau / rolau / prosiectau allweddol drwy gydol eich amser ar y bwrdd?
   *Ym mha ffordd oedd y dyletswyddau / rolau / prosiectau hyn yn cyfrannu at nodau ac amcanion y rhaglen?*
   *Sut y gwnaethoch chi roi adborth ar brosiectau / mentrau pan oeddech chi'n aelod o fwrdd y rhaglen?*

5. Beth oedd eich dealltwriaeth o sut yr oedd Llywodraeth Cymru yn cefnogi bwrdd y rhaglen?

<u>Sut y sefydlwyd y bwrdd ac amcanion allweddol y rhaglen</u>

6. Sut y cafodd y bwrdd ei sefydlu? [i'w ofyn i Gadeirydd Bwrdd y Rhaglen yn unig]

7. Pa rôl oedd gan y bwrdd wrth lunio amcanion Cymru'n Cofio?

    *Sut y penderfynwyd ar yr amcanion?*

    *Sut y cafodd yr amcanion eu trawsnewid yn brosiectau / mentrau drwy fwrdd y rhaglen?*

8. Pa rôl oedd gan y bwrdd wrth lunio'r strategaeth gyfathrebu?
    *Beth oedd y galluogwyr a'r rhwystrau i weithredu'r strategaeth gyfathrebu?*

9. Pa rôl oedd gan y bwrdd wrth ddylunio / cydgysylltu'r rhaglen digwyddiadau?

10. Un o amcanion allweddol y rhaglen oedd sicrhau bod grwpiau gwarchodedig yn cael eu cynnwys yn y gweithgarwch coffáu. Beth oedd rôl bwrdd y rhaglen wrth sicrhau bod yr amcan hwn yn cael ei gyflawni a'i ddangos?

    *Beth oedd y galluogwyr a'r rhwystrau i sicrhau bod mentrau yn gynhwysol?*

<u>Gweithrediad y bwrdd</u>

11. Pa agweddau ar waith y bwrdd oedd yn effeithiol?
    a. Amlder cyfarfodydd
    b. Cynnwys y drafodaeth
    c. Hwyluso trafodaeth
    d. Prosesau gwneud penderfyniadau
    e. Cyfathrebu rhwng cyfarfodydd

12. Beth oedd y prif heriau a wynebwyd o ran gweithrediad bwrdd y rhaglen?

    *Sut y cafodd yr heriau hyn eu trafod neu eu datrys?*

    *A oedd unrhyw enghreifftiau o arfer da wrth fynd i'r afael â'r heriau hyn?*

13. Beth oedd y llwyddiannau a'r heriau yn y ffordd roedd y bwrdd yn cyfathrebu â phrosiectau?

    *Sut y cafodd yr heriau hyn eu trafod neu eu datrys?*

    *A oedd unrhyw enghreifftiau o arfer da wrth fynd i'r afael â'r heriau hyn?*

<u>Mesur canlyniadau</u>

(i) Sut cafodd llwyddiant y rhaglen ei ddiffinio yn y dechrau?

(ii) Pa fesurau / dangosyddion oedd ar waith i fesur canlyniadau'r rhaglen?
   a. Ar lefel y prosiect?
   b. Ar lefel y rhaglen?

(iii) Pa ddangosyddion canlyniadau ychwanegol y gellid eu hystyried i fesur llwyddiant rhaglenni coffa yn y dyfodol?

<u>Rhaglenni yn y dyfodol a myfyrdodau</u>

(iv) Ar sail eich trafodaeth ar yr agweddau ar weithrediad bwrdd y rhaglen a weithiodd yn dda, a'r agweddau heriol, beth yw'r ystyriaethau allweddol ar gyfer byrddau yn y dyfodol o safbwynt rhaglenni coffa tebyg?